



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

# Sgrinio, asesu ac ymyrryd

Pennu dulliau sgrinio, asesu ac ymyrryd ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 164/2015

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015

## Sgrinio, asesu ac ymyrryd

- Cynulleidfa** Awdurdodau lleol, darparwyr y blynyddoedd cynnar, ysgolion prif ffrwd a darparwyr addysg bellach.
- Trosolwg** Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth am dulliau effeithiol o sgrinio, asesu ac ymyrryd sydd ar gael ar hyn o bryd i ddysgwyr ag anawsterau dysgu penodol (ADP).
- Camau i'w cymryd** Dylai ymarferwyr ystyried y cyngor hwn er mwyn gallu pennu dulliau effeithiol o sgrinio, asesu ac ymyrryd mewn perthynas â dysgwyr y gallai fod ganddynt ADP.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol  
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 3003  
e-bost: [Additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk)
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn [dysgu.llyw.cymru](http://dysgu.llyw.cymru)

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Disgrifyddion a gwybodaeth am ADPau</b>	<b>4</b>
<b>Dulliau allweddol ar gyfer adnabod, asesu a chynorthwyo dysgwyr ag ADPau</b>	<b>11</b>
<b>Atodiad 1: Prosesau posibl ar gyfer ADPau ac ALLau</b>	<b>28</b>
<b>Atodiad 2: Beth i'w ystyried wrth ddewis offer sgrinio neu asesu</b>	<b>32</b>
<b>Atodiad 3: Rhestr o dermau sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas ag offer sgrinio ac asesu</b>	<b>35</b>
<b>Atodiad 4: Rhagor o ystyriaethau wrth ystyried sgrinio ac asesu ar gyfer ADPau</b>	<b>38</b>
<b>Atodiad 5: Rhestr o gwestiynau ar gyfer ymarferwyr wrth ystyried dulliau ymyrraeth</b>	<b>41</b>
<b>Atodiad 6: Sefydliadau defnyddiol sy'n gysylltiedig ag ADPau</b>	<b>44</b>

## Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol (ALLau) a darparwyr addysgol am sut i amlygu dulliau sgrinio, asesu ac ymyrryd effeithiol sydd ar gael i ddysgwyr ag anawsterau dysgu penodol (ADPau) ar hyn o bryd. Bydd hyn yn galluogi ALLau ac ymarferwyr addysgu i sicrhau mwy o gysondeb o ran adnabod dysgwyr ag ADPau a chymhwyso ymyriadau priodol i helpu i fodloni eu hanghenion dysgu.

Mae'r canllawiau yn cynnwys disgrifyddion ar gyfer pob ADP; gwybodaeth sylfaenol am adnabod dysgwr sydd ag ADP; y sail resymegol ar gyfer bod â phroses ar waith a chanllawiau ar ddewis dulliau sgrinio, asesu ac ymyrryd.

## Canfyddiadau allweddol o archwiliad o ddarpariaethau ADP yng Nghymru

Ym mis Hydref 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru archwiliad cyflym o drefniadau ALLau ar gyfer adnabod a chynorthwyo dysgwyr ag ADPau yng Nghymru. Nid oedd yr archwiliad cyflym hwn wedi ei fwriadu i ddarparu darlun cyflawn o drefniadau ALLau, ond yn hytrach i roi dealltwriaeth fynegol o ddulliau ADP ledled Cymru.

Roedd yr archwiliad yn cynnwys arolwg cryno o ddulliau ALLau, ac fe'i cynhaliwyd dros gyfnod o chwech wythnos. Mae canfyddiadau allweddol yr archwiliad hwn wedi eu hamlygu isod.

### Amrywioldeb

Mae tystiolaeth eang o amrywioldeb mewn arferion, ac mae ALLau yn gweithredu'n wahanol iawn i'w gilydd. Mae ychydig o ALLau sydd â dull aml-lwyfan ac integredig cydlynus sy'n cwmpasu pob cyflwr ar bob oedran. Hefyd, mae amrywioldeb o ran prosesau o adnabod drwodd i reoli.

Yn gyffredinol, rhoddwyd mwy o ffocws at lythrennedd a dyslecsia. Mewn rhai rhannau o Gymru, ceir systemau sydd wedi eu datblygu'n dda ar gyfer adnabod a rhoi cymorth ar gyfer namau iaith a lleferydd hefyd. Mae sawl ALL wedi datblygu llwybrau ar gyfer anhwylder cydsymud datblygiadol (sydd hefyd yn cael ei alw'n dyspracsia), ond ychydig iawn o ALLau sydd â gweithdrefnau ar waith ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd a dyscalcwlia.

Mae gwaith yn amlwg yn cael ei ddyblygu, a cheir enghreifftiau o ALLau yn datblygu eu hoffer, adnoddau, rhestrau gwirio a'u protocolau a llwybrau lleol eu hunain.

Mae amserlenni, o adnabod i asesu, yn amrywio'n eang ledled Cymru ar gyfer ADPau gwahanol. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys llwyth gwaith staff yr ALL a newidiadau staff, e.e. nid oes gan lawer o ALLau dîm canolog o athrawon ymgynghorol arbenigol mwyach.

## **Gweithio ar y cyd**

Ceir tystiolaeth o gydweithio rhwng ALLau ym mhob agwedd ar ADPau yng Nghymru, ynghyd â rhai llwybrau graddedig sydd wedi eu datblygu'n dda rhwng addysg ac iechyd mewn anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd, anhwylder cydsymud datblygiadol (dyspraxia) a namau iaith a lleferydd.

## **Terminoleg a rolau**

Ceir rhywfaint o dystiolaeth y caiff y term ADP ei ddefnyddio'n gydgyfnewidiol, ambell waith, i olygu dyslecsia. Gall hyn beri rhywfaint o ddryswch i rieni/gofalwyr ac addysgwyr o ran yr hyn sy'n cael ei gynnig a'r prosesau sy'n cael eu dilyn.

Mewn ALLau gwahanol, bydd gan ystod o weithwyr proffesiynol gyfrifoldeb dros agweddau gwahanol ar ddarpariaeth ADP ac nid oes llawer o gysondeb. Er enghraifft, efallai mai seicolegwyr addysg fydd y man cyfeirio cyntaf ar gyfer rhai cyflyrau mewn un ALI, ond mewn ALLau eraill, efallai mai rôl athro/athrawes arbenigol fydd hyn.

## **Sgrinio cyffredinol ar gyfer ADPau**

Mae ymatebion yr arolwg yn awgrymu y gall fod rhywfaint o ddryswch ynghylch sut mae'r term sgrinio cyffredinol yn cael ei ddeall neu ei ddefnyddio. Rhoddwyd enghreifftiau o offer gwahanol, er nad oedd rhai ohonynt yn asesiadau nac yn offer sgrinio. Yn gyffredinol, roedd mwy o ffocws ar sgrinio'n gyffredinol ar gyfer anawsterau llythrennedd nag mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, mynegodd rhai ALLau fod sgrinio cyffredinol yn ddull llai defnyddiol, a'u bod yn defnyddio dull mwy graddedig gan ddefnyddio pryder rhieni/gofalwyr/athrawon, presenoldeb oedi yn eu datblygiad neu fethu gwneud cynnydd o gymharu â'u cyfoedion, yn sbardunau ar gyfer sgrinio ymhellach.

## **Offer sgrinio, offer asesu a dulliau ymyrryd**

Adroddwyd bod dros 100 o offer sgrinio ac asesu gwahanol yn cael eu defnyddio mewn ALLau. Roedd dulliau ymyrryd yn amrywio'n fawr hefyd. Nid oedd llawer o gysondeb ar draws ALLau o ran yr offer sgrinio/asesu a'r dulliau ymyrryd a ddefnyddir.

Ni ddarparodd ALLau lawer o wybodaeth am ddulliau ffurfiol ar gyfer anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd, dyscalcwlia ac, i ryw raddau, anhwylder cydsymud datblygiadol, ar bob oedran a chyfnod.

## **Systemau monitro a sicrhau ansawdd**

Adroddwyd bod systemau monitro a sicrhau ansawdd ar waith, a bod mwy o systemau ar waith ar gyfer dyslecsia a namau iaith a lleferydd nag mewn meysydd eraill o ADPau.

Crybwyllodd rai ALLau eu bod yn defnyddio data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), ac roedd gan eraill rai systemau monitro a ddatblygwyd yn lleol. Crybwyllodd rai ALLau fod ganddynt gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) â mesurau canlyniadau â gweithwyr iechyd proffesiynol.

## Disgrifyddion a gwybodaeth am ADPau

Mae'r termau a ddefnyddir i ddisgrifio ADPau yn amrywio o un ALL i'r llall, a gall hyn beri dryswch i rieni/gofalwyr ac ymarferwyr addysgu, fel ei gilydd. Mae'r ddogfen hon a'r dolenni ohoni yn darparu rhai datganiadau sy'n disgrifio pob ADP ac yn gobeithio annog defnyddio terminoleg gyffredin a chyson.

Gellir gweld disgrifyddion llawn o ADPau yn y *Fframwaith ar gyfer anawsterau dysgu penodol* (2015) yn [learning.gov.wales/resources/collections/spld-framework?skip=1&lang=cy](https://learning.gov.wales/resources/collections/spld-framework?skip=1&lang=cy).

### Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd

Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yw'r term ambarél i ddisgrifio cyflwr sy'n effeithio ar allu unigolion i dalu sylw ac i ganolbwyntio ynghyd â'u byrbwylltra, eu lefelau egni a'u cof (cynhwysir anhwylder diffyg canolbwyntio yn hyn).

### Anhwylder cydsymud datblygiadol

Mae anhwylder cydsymud datblygiadol, a adnabyddir hefyd fel dyspracsia yn y DU, yn effeithio ar sgiliau cydsymud echddygol manwl a bras a sgiliau cydbwysedd.

### Dyscalcwlia

Cyflwr yw dyscalcwlia sy'n effeithio ar y gallu i ddysgu sgiliau rhifyddeg yn bennaf.

### Dyslecsia

Anhawster dysgu sy'n effeithio'n bennaf ar y sgiliau a ddefnyddir i ddarllen geiriau'n gywir ac yn rhugl ac ar sillafu yw dyslecsia.

### Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu

Anhwylder datblygiadol yw nam iaith penodol a all effeithio ar allu'r dysgwr i siarad, i ddeall ac i gyfathrebu'n effeithiol.

## Rhai ffeithiau sylfaenol am ADPau


Mae ADP yn derm hollgynhwysol sy'n cael ei ddefnyddio i gwmpasu ystod o anawsterau. Mae ADPau yn digwydd ar draws ystod o alluoedd deallusol. Mae pob cyflwr yn derm hollgynhwysol hefyd sy'n cynrychioli ystod o nodweddion. Er enghraifft, efallai y bydd un dysgwr â dyslecsia yn cael anawsterau darllen a sillafu, ond efallai y bydd gan un arall anawsterau o ran darllen a deall ac ysgrifennu.

Nid oes rhaid i unrhyw unigolyn fod â'r **holl** nodweddion er mwyn cael diagnosis, ond rhaid cael nifer ddigonol ohonynt i fodloni meini prawf penodol. Gall ffactorau eraill arwain at ddau ddysgwr â'r un 'label', e.e. bod gan y ddau ohonynt anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, ond bod ganddynt nodweddion gwahanol. Gartref, gall un dysgwr gael cymorth i drefnu, ac felly bydd yn dysgu o'r modelu hwn; gall un arall gael llai o gymorth, ac felly llai o ymarfer. Efallai y bydd gan bob dysgwr ag ADP batrymau gwahanol o gyd-ddigwyddiad ag ADPau eraill hefyd, sy'n effeithio ar sut maent yn dangos eu hanawsterau y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Bydd ymgyflwyniad a graddau'r effaith yn amrywio o un oedran i'r llall hefyd, a gall lefel y cymorth a roddir a gofynion tasgau effeithio arnynt hefyd, e.e. cymhlethdod gwaith a'r amser a roddir i'w gwblhau.

Bydd rhai dysgwyr mewn mwy o berygl o fod ag ADP, ac mae hyn yn arbennig o wir am y rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a'r rhai nad ydynt mewn addysg<sup>1 2</sup>. Ceir tystiolaeth o gyfraddau uwch o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anawsterau iaith ac anawsterau llythrennedd ymhlith y grŵp hwn o gymharu â lleoliad prif ffrwd<sup>3</sup>. Hefyd, mae'r dysgwyr hyn mewn mwy o berygl tymor hwy o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), ac efallai y bydd rhai ohonynt mewn mwy o berygl o fynd i'r sector cyfiawnder troseddol hefyd<sup>4</sup>.

Trwy weld yr arwyddion yn gynnar, darparu cymorth priodol a monitro ar gyfer newid, gallwn helpu pob dysgwr i fod y gorau y gall fod.

### Mae pob ADP:

- 
- yn **gyffredin**
  - ar **gontinwrm**
  - mae iddynt **ganlyniadau**
  - yn **gronig**
  - yn **cyd-ddigwydd**.

- **Cyffredin** – Mae ADPau yn bresennol ymhlith hyd at 15 y cant o'r boblogaeth. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd o leiaf un neu ddau ddysgwr ym

<sup>1</sup> [www.gov.wales/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-school/?skip=1&lang=cy](http://www.gov.wales/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-school/?skip=1&lang=cy)

<sup>2</sup> Parker, C, Whear, R, Ukoumunne, OC, Bethel, A, Thompson-Coon, J, Stein, K, a Ford, T (2014) 'School exclusion in children with psychiatric disorder or impairing psychopathology: a systematic review' yn *Emotional and Behavioural Difficulties* (Routledge, 2014) DOI:10.1080/13632752.2014.945741

<sup>3</sup> Place, M, Wilson, J, Martin, E, a Hulsmeier, J (2000) 'The Frequency of Emotional and Behavioural Disturbance in an EBD School' yn *Child Psychology and Psychiatry Review*, 5(2): 76–80 (2003)

<sup>4</sup> [www.barrowcadbury.org.uk/wp-content/uploads/2011/04/YPIF-Young-Adults-in-CJS-ETE-FACT-FILE-2011.pdf](http://www.barrowcadbury.org.uk/wp-content/uploads/2011/04/YPIF-Young-Adults-in-CJS-ETE-FACT-FILE-2011.pdf)

mhob ystafell ddsbarth sydd ag un neu fwy o ADPau. Mewn rhai lleoliadau, gall y cyfraddau fod yn uwch o lawer, fel mewn UC Dau.

- **Continwmm** – Nid oes unrhyw ‘dorbwynt’ penodol ar gyfer unrhyw ADP. Mae pob cyflwr yn derm hollgynhwysol sy’n cynrychioli nodweddion ar gontinwmm. Mae cyflyrau’n effeithio ar ddysgwyr gwahanol i raddau amrywiol. Mae’n well gan rai pobl eu gweld ar sbectrwm. Ers dros 10 mlynedd mae arbenigwyr yn y maes wedi bod yn disgrifio dyslecsia a nam penodol ieithyddol fel pethau sydd ar gontinwmm yn hytrach na chyflyrau ar wahân<sup>5</sup>.
- **Canlyniadau** – Yn aml, mae ADPau yn effeithio ar botensial dysgwr i gyfranogi’n llawn mewn gweithgareddau pob dydd yn eu lleoliad addysgol a gartref. Yn aml, gwelir diffyg hunan-barch, hyder isel ac unigedd cymdeithasol, yn ogystal â chanlyniadau eilaidd penodol eraill sy’n ymwneud â’r anawsterau dysgu gwahanol e.e. nodwyd bod magu pwysau a diffyg ffitrwydd yn ganlyniadau eilaidd o anhwylder cydsymud datblygiadol, ymhlith rhai.
- **Cronig** – Ceir tystiolaeth helaeth fod ADPau yn gyflyrau gydol oes a bod yr effaith a’r heriau i rai yn parhau i oedolaeth ac yn effeithio ar ganlyniadau addysgol a chyflogadwyedd.
- **Cyd-ddigwydd** – Mae enwau eraill ar hyn yn cynnwys gorgyffwrdd neu gydforbidrwydd. Ceir tystiolaeth helaeth i ddangos, os oes gennych un ADP, rydych yn debygol o fod ag ADPau eraill hefyd, i raddau mwy neu lai. Mae pob ADP yn gorgyffwrdd â’i gilydd ac â chyflyrau eraill hefyd, gan gynnwys anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, gorbryder ac iselder. Mae rhai ADPau yn cyd-ddigwydd yn fwy â rhai cyflyrau nag eraill, e.e. gall anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd gyd-ddigwydd ag anawsterau ymddygiad, anhwylder herio gwrthryfelgar ac anhwylder ymddygiad.

Roedd Adroddiad Rose<sup>6</sup> ar ddyslecsia (2009) yn sôn am anawsterau sy’n cyd-ddigwydd, ac mae’n gwneud y pwynt pwysig:

‘Co-occurring difficulties may be seen in aspects of language, motor co-ordination, mental calculation, concentration and personal organisation, but these are not, by themselves, markers of dyslexia.’

Mae canllawiau NICE ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (2008)<sup>7</sup> yn ailadrodd hyn hefyd ac yn dweud:

‘Symptoms of ADHD can overlap with symptoms of other related disorders, and ADHD cannot be considered a categorical diagnosis. Therefore care in differential diagnosis is needed. Common coexisting conditions in children

<sup>5</sup> Bishop, DVM a Snowling, MJ (2004) ‘Developmental Dyslexia and Specific Language Impairment: Same or Different?’ yn *Psychological Bulletin* 130(6) 858–886 (2004)

<sup>6</sup> Rose, J (2009) *Identifying and Teaching Children and Young People with Dyslexia and Literacy Difficulties* (DCSF, 2009)

<sup>7</sup> [www.nice.org.uk/guidance/cg72](http://www.nice.org.uk/guidance/cg72)



with ADHD are disorders of mood, conduct, learning, motor control and communication, and anxiety disorders; in adults they include personality disorders, bipolar disorder, obsessive-compulsive disorder and substance misuse.'

Mae rhai enghreifftiau penodol o gyd-ddigwydd yn cynnwys gwaith o Ganada gan Kaplan et al.<sup>8</sup>, a gynhaliwyd bron i 20 mlynedd yn ôl. Dangosodd yr awduron, ymhlith poblogaeth o ddysgwyr ag anhwylder cydsymud datblygiadol, anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd a dyslecsia:

- canfu bod gan bron i un o bob pedwar o'r rhai ag un ADP bob un o'r tri ohonynt
- roedd gan 10 y cant ohonynt anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd **ac** anhwylder cydsymud datblygiadol
- Roedd gan 22 y cant ohonynt ddyslecsia **ac** anhwylder cydsymud datblygiadol.

Yng Nghymru, dangosodd Kirby et al.<sup>9</sup>, fod dysgwyr â diagnosis o naill ai anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd neu anhwylder cydsymud datblygiadol yn debygol o fod â'r cyflwr arall mewn 30–40 y cant o achosion. Nodwyd y risg gynyddol o orbryder mewn anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd, nam ieithyddol penodol ac anhwylder cydsymud datblygiadol, er enghraifft<sup>10</sup>.

### Termau eraill sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio ADPau

Gall y termau hyn gael eu defnyddio gan rai gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill, ac maent yn cynnwys:

- anhwylder datblygiad
- anhwylderau niwroddatblygiadol
- niwroamrywiaeth.

Yn ogystal, mae termau y gellir eu crybwyll mewn perthynas ag ADPau yn cynnwys<sup>11</sup>:

- yn y gorffennol, galwyd **datblygiad nodweddiadol** yn ddatblygiad 'normal', a dyma'r hyn a ddisgwylir yn gyffredinol gan y mwyafrif o ddysgwyr

---

<sup>8</sup> Kaplan, B, Wilson, B, Dewey, D a Crawford, S (1998) 'DCD may not be a discrete disorder' yn *Human Movement Science* (Elsevier Science, 1998) 17: 471–490

<sup>9</sup> Kirby, A, Salmon, G ac Edwards, L (2007) 'Should Children with ADHD be Routinely Screened for Motor Coordination Problems? The Role of the Paediatric Occupational Therapist' yn *British Journal of Occupational Therapy* (SAGE, 2007) 70 (11), 483–486

<sup>10</sup> Conti-Ramsden, G a Botting, N (2008) 'Emotional health in adolescents with and without a history of specific language impairment (SLI)' yn *Journal of Child Psychology and Psychiatry* (2008) 49(5): 516–25

<sup>11</sup> [www.learning.wales.gov.uk/resources/learningpacks/mep/module2/typical-and-atypical-development/typical-development-milestones/?skip=1&lang=cy](http://www.learning.wales.gov.uk/resources/learningpacks/mep/module2/typical-and-atypical-development/typical-development-milestones/?skip=1&lang=cy)

- mae **datblygiad annodweddiadol** yn golygu bod datblygiad dysgwr yn wahanol i'r hyn y dylai'r rhan fwyaf o ddysgwyr o oed a phrofiad tebyg fod yn ei wneud mewn maes datblygiad, e.e. sgiliau echddygol, gwybyddiaeth, iaith
- fel arfer, mae **oedi yn natblygiad** yn golygu'r cyflwr lle nad yw dysgwr yn datblygu a/neu'n cyflawni sgiliau yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig (oedi cronolegol mewn gweld cerrig milltir datblygiadol normal sy'n cael eu cyflawni yn ystod babandod a phlentyndod cynnar). Gall hyn cael ei achosi gan ffactorau biolegol, seicolegol neu amgylcheddol
- mae **oedi cyffredinol** yn golygu oedi yn natblygiad mwy nag un maes. Gall hyn fod yn gysylltiedig â nam deallusol neu anabledd dysgu, ac mae'n wahanol i ADP.
- **anhwylder** – mae gan ddysgwr sydd â phroffil datblygiadol ag anhwylder fylchau o ran cyrraedd cerrig milltir datblygiadol. Mae cynnydd yn digwydd mewn patrwm annilyniannol. Weithiau, gellir cyfeirio at hyn fel patrwm datblygu 'gwyrddroedig'.

## Amlygu ADPau

Gall y sbardun ar gyfer amlygu ADPau ddod o nifer o lwybrau gwahanol.

**Oedi yn natblygiad** – Gall y dysgwr ddangos rhyw oedi yn ei (d)datblygiad (a all fod wedi cael ei gydnabod yn y blynyddoedd cynnar, mewn rhai achosion). Mae'r Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys deunydd a all helpu i gofnodi cynnydd dysgwyr, yn enwedig gan ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen<sup>12</sup>, sydd â'r nod o asesu galluoedd a datblygiad dysgwyr mewn pedwar Maes Dysgu:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Datblygiad Corfforol.

Mae canllawiau yn cyd-fynd â Phroffil y Cyfnod Sylfaen sy'n disgrifio llwybr datblygiadol arferol yn ogystal ar ystod o sgiliau a dangosyddion, sy'n awgrymu y gall fod angen ymchwilio ymhellach i anghenion dysgwr.

**Pryderon rhieni/gofalwyr ac athrawon** – Gall y rhain fod yn sbardun pwysig. Mae pryder rhieni/gofalwyr yn bwysig i'w cydnabod, ond efallai na fydd yn nodi'n benodol lle mae'r anawsterau. Er enghraifft, gall newid yn yr ymddygiad gartref awgrymu bod dysgwr yn cael anawsterau darllen neu fynychu'r ysgol.

**Gwelliant mewn llythrennedd a rhifedd** – Ni fydd pob plentyn yn cael ei (h)adnabod yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

<sup>12</sup> [www.gov.wales/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation-phase/foundation-phase-profile/?skip=1&lang=cy](http://www.gov.wales/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation-phase/foundation-phase-profile/?skip=1&lang=cy)

(FfLIRh)<sup>13</sup> yn darparu strwythur i gefnogi gwelliant. Caiff hyn ei ddefnyddio i ddarparu camau nesaf manwl i bob dysgwr a gellir ei ddefnyddio fel dull o amlygu'r dysgwyr hynny nad yw'n ymddangos eu bod yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl, ac/neu o gymharu â'u cyfoedion.

**Mwy o alw am sgiliau** – Gall pwyntiau gwro ar gyfer adnabod fod yn gysylltiedig â mwy o alw am dasgau a sgiliau neu newid yn yr amgylchedd hefyd. Gall adnabyddiaeth hwyrach, e.e. yn yr ysgol uwchradd, fod oherwydd bod y dysgwr yn gorfod gweithio ar lefel uwch ac efallai nad oes ganddo/ganddi'r sgiliau i ymdopi, neu efallai bod rhaid iddo/iddi fod yn ddysgwr mwy annibynnol a'i fod/bod yn cael trafferth bod yn hunandrefnus, fel gorfod symud rhwng dosbarthiadau a chynllunio i gwblhau aseiniadau'n brydlon. Gall hyn fod ochr yn ochr â llai o sgaffaldio a chymorth, gartref ac yn yr ysgol, o gymharu ag yn yr ysgol gynradd, oherwydd bod disgwyl i ddysgwyr hyn ymdopi â llai.

**Presenoldeb ADPau eraill.** Os nodwyd bod gan y dysgwr feysydd heriol neu ADPau eraill, e.e. mae ganddo/ganddi heriau emosiynol neu ymddygiadol, sy'n arwain at waharddiad neu gael ei r(h)oi mewn UCD, neu nodwyd eisoes bod ganddo/ganddi ddyslecsia (oherwydd bod ADPau yn aml yn cyd-ddigwydd), dylai presenoldeb un ADP fod yn sbardun i ystyried ADPau eraill.

Bydd pob amser ychydig o ddysgwyr sy'n peri pryder ar unwaith, ac weithiau rydym yn galw'r rhain yn **'faneri coch'**. Pryderon yw'r rhain a all amlygu cyflwr penodol, fel anhwylder cydsymud datblygiadol ar unwaith, neu a all fod yn rhybudd i'ch atgyfeirio am gyngor arbenigol oherwydd eich bod yn poeni am iechyd neu les y dysgwr, neu nad yw'r nodweddiad yn cyd-fynd â darlun nodweddiadol o ddysgwr ag ADP.

Gall enghreifftiau o **faneri coch** gynnwys:

- oedi o ran lleferydd neu'n anodd ei (d)deall gan oedolion
- ni all y dysgwr ddefnyddio'r toiled na bwydo'i hun heb gymorth
- y dysgwr yn ei chael hi'n anodd eistedd yn llonydd i wrando ar stori am fwy nag ychydig funudau
- yn syrthio neu'n bwrw i mewn i ddysgwyr eraill
- sgiliau echddygol yn dirywio, e.e. roedd yn gallu rhedeg, ond nid yw'n gallu gwneud hynny'n dda iawn erbyn hyn.

Dylech fod yn ymwybodol y gall oedi ymhlith rhai dysgwyr fod yn gysylltiedig â'r canlynol:

- **diffyg profiad/cyfle yn ymwneud â'u bywyd cartref.** Gall hyn fod yn wir ar gyfer dysgwyr ifanc nad ydynt wedi mynychu lleoliad cyn-ysgol, er enghraifft
- **osgoi gweithgaredd,** e.e. gall dysgwr sy'n ei chael hi'n anodd rhoi sylw yn y dosbarth arwain at lai o ymarfer mewn sgiliau fel darllen; yna, gall dysgwr sy'n cydnabod ei fod/bod yn cael anawsterau osgoi ymarfer y sgil

---

<sup>13</sup> [www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/nlnf/?skip=1&lang=cy](http://www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/nlnf/?skip=1&lang=cy)

honno, e.e. bydd dysgwr sy'n cael sgiliau pêl yn anodd yn osgoi chwarae ar y buarth ac felly'n ymarfer llai

- **diffyg dealltwriaeth neu sylw.** Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod y dysgwr yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), ac nad yw'n deall yn llawn yr hyn sy'n cael ei ofyn ganddo/ganddi
- **cynamseroldeb mewn dysgwyr iau.** Bydd rhai dysgwyr wedi eu geni cyn amser, a gall hyn effeithio ar eu dysgu<sup>14</sup>.

Y ffactorau gwahaniaethol y mae angen eu hystyried yw nad yw'r anawsterau o ganlyniad i oedi cyffredinol nac wedi eu hachosi gan resymau eraill, fel cyflwr meddygol neu genetig penodol.

---

<sup>14</sup> Odd, DE, Emond, A, Whitelaw, A (2012) 'Long-term cognitive outcomes of infants born moderately and late preterm' yn *Developmental medicine and child neurology* (2012) 54(8): 704–9

## Dulliau allweddol ar gyfer adnabod, asesu a chynorthwyo dysgwyr ag ADPau

Ceir tystiolaeth dda o ymchwil i ADPau y gall canllawiau, polisiau a gweithdrefnau clir o adeg adnabod i gynorthwyo'r dysgwyr gynyddu ansawdd darpariaeth ac esbonio'r camau y mae angen eu cymryd ym mhob cyfnod<sup>15 16</sup>.

Mae adroddiad *Ymchwil i'r ddarpariaeth ar gyfer dyslecsia yng Nghymru* (Saesneg yn unig) (Llywodraeth Cymru, 2012)<sup>17</sup> yn pwysleisio:

'Children with overlapping learning disabilities may need support from several professional groups across agencies. This was recognised by the Special Educational Needs Code of Practice and the National Service Framework for Children (2006) which advocate multi-disciplinary, joint agency working to provide seamless services to children and families.'

Trwy ddod i gonsensws a chyflwyno cynllun cydlynus gyda'ch gilydd, gall hyn nid yn unig gynyddu hyder mewn cyflwyno gwasanaethau, ond gwella deilliannau i ystod eang o ddysgwyr yn eich lleoliad addysgol hefyd. Caiff gwybodaeth ychwanegol am ganllawiau cenedlaethol a rhyngwladol, llwybrau a gweithdrefnau ar gyfer ADPau, ynghyd â gweithdrefn/llwybr enghreifftiol eu harchwilio yn yr adran hon.

Un rhan o ddeall y dysgwr yw casglu gwybodaeth i ddeall mwy am ei (h)anawsterau. Mae dewis offer sgrinio ac asesu priodol a chadarn yn bwysig am nifer o resymau. Gall roi hyder i chi o ran deall beth yw'r anawsterau a dylai helpu i benderfynu pa ymyrraeth y dylid ei rhoi ar waith. Fodd bynnag, gall fod ystod eang o offer ar gael a ddefnyddir yn barod. Mae penderfynu pa un i'w ddefnyddio yn mynnu asesiad gofalus o nifer o ffactorau, gan gynnwys pa mor gadarn y mae'r offeryn, a ph'un a ydych yn hyderus wrth ei ddefnyddio ac, yn y pen draw, a yw'n helpu eich llywio.

Er mwyn helpu, mae cyfres o atodiadau yn y ddogfen. Mae hyn yn cynnwys rhestr o'r hyn i'w ystyried wrth ddewis offeryn sgrinio neu asesu (gweler Atodiad 2), geirfa i ddeall rhai o'r termau a ddefnyddir mewn perthynas â sgrinio ac asesu (gweler Atodiad 3), a rhai atebion i gwestiynau cyffredin yn ymwneud â hyn (gweler Atodiad 4). Hefyd, ceir rhestr wirio o eitemau i'w hystyried wrth ddewis ymyriad ac i wirio am gynnydd (gweler Atodiad 5).

<sup>15</sup> Salmon, G, Cleave, H and Samuel, C (2006) 'Development of multi-agency referral pathways for attention-deficit hyperactivity disorder, developmental coordination disorder and autistic spectrum disorders: reflections on the process and suggestions for new ways of working' yn *Clinical Child Psychology and Psychiatry* (SAGE, 2006) 11(1): 63–68

<sup>16</sup> Salmon, G and Kirby, A (2008) 'Schools: Central to Providing Comprehensive CAMH Services in the Future?' yn *Child and Adolescent Mental Health* (2008) 13(3): 107–114

<sup>17</sup> [www.wales.gov.uk/docs/caecd/research/120824-dyslexia-provision-literature-review-en.pdf](http://www.wales.gov.uk/docs/caecd/research/120824-dyslexia-provision-literature-review-en.pdf)

## **Consensws, canllawiau, llwybrau a gweithdrefnau**

Gall ALLau a lleoliadau addysgol elwa ar ddulliau cyson wedi eu seilio ar sail dystiolaeth o arfer gorau. Mae llawer o ALLau eisoes wedi sefydlu prosesau, protocolau neu lwybrau i'w dilyn. Gall hyn helpu lleoliadau addysgol, gwasanaethau iechyd a'r ALI i wybod beth i'w ddisgwyl a phryd i gymryd camau.

Yn aml, caiff y prosesau a'r llwybrau eu creu gan arbenigwyr ac ymarferwyr ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Dylent gynnwys egwyddorion arfer gorau sy'n hysbys ac a gafwyd o ymchwil gyfredol. Ceir consensws pan fydd cytundeb ynghylch y prosesau a'r camau gweithredu hyn. Mae'n bwysig adolygu canllawiau'n rheolaidd hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.

Gweler Atodiad 1 am enghraifft o lwybr.

## **Beth yw consensws?**

Proses o wneud penderfyniadau mewn grŵp sy'n ceisio cael caniatâd pob un o'r cyfranogwyr yw consensws. Gall consensws gael ei ddiffinio'n broffesiynol fel ateb derbyniol, un y gellir ei gefnogi, hyd yn oed os nad hwnnw oedd 'hoff' ateb pob unigolyn. Yn aml, daw canllawiau cytûn o gonsensws. Ym maes ADPau, bu nifer o gyfarfodydd consensws sydd wedi arwain at ganllawiau, e.e. ar gyfer anhwylder cydsymud datblygiadol ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.

## **Beth yw canllawiau, llwybrau a phrotocolau?**

Yn gyffredinol, nod canllawiau yw helpu gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr i wneud y penderfyniadau gorau ynghylch ymyrraeth neu reolaeth ar gyfer cyflwr neu sefyllfa benodol. Yn nodweddiadol, mae'r canllawiau wedi eu hysgrifennu at ffurf datganiad gan sefydliad ag enw da. Mae awduron canllawiau'n adolygu'r llenyddiaeth ymchwil ac yn cael cyngor gan arbenigwyr i gasglu'r dystiolaeth gyfredol i seilio'r argymhellion mewn canllaw arni. Ceir tystiolaeth bod rhai ALLau wedi cymryd y rhain a'u haddasu ar gyfer eu defnyddio'n lleol.

Mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o ganllawiau allweddol ar gyfer ADP.

## **Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd**

Yn y DU, mae dau gorff sydd â chanllawiau cofnodedig. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) wedi gosod canllawiau ar gyfer asesu a gwneud diagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn y DU<sup>18</sup>. Mae Rhwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban (SIGN)<sup>19</sup> wedi gosod canllawiau ar gyfer asesu a gwneud diagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn yr Alban.

## **Dyslecsia**

Bu dau adroddiad diweddar sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer sgrinio, asesu ac ymyrraeth ar gyfer dyslecsia: yn Lloegr, adroddiad Rose<sup>20</sup>, a'r diwethaf o Gymru<sup>21</sup>, adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru oedd hwn, i ddarpariaeth dyslecsia

<sup>18</sup> [www.nice.org.uk/guidance/cg72](http://www.nice.org.uk/guidance/cg72)

<sup>19</sup> [www.sign.ac.uk/guidelines/fulltext/112/](http://www.sign.ac.uk/guidelines/fulltext/112/)

<sup>20</sup> Rose, J (2009) Identifying and Teaching Children and Young People with Dyslexia and Literacy Difficulties (DCSF, 2009)

<sup>21</sup> [www.gov.wales/statistics-and-research/research-dyslexia-provision/?skip=1&lang=cy](http://www.gov.wales/statistics-and-research/research-dyslexia-provision/?skip=1&lang=cy)

yng Nghymru, gan gynnwys arweiniad ar sgrinio, asesu ac ymyriadau a dderbynnir fel arfer gorau.

### **Dyscalcwlia**

Nid oes unrhyw ganllawiau rhyngwladol ffurfiol ar gyfer dyscalcwlia. Bu adolygiad diweddar yn llawlyfr Cymdeithas Dyslecsia Prydain (BDA) (2014)<sup>22</sup>. Yn ddiweddar, mae Steve Chinn, sef arbenigwr yn y DU ar anawsterau mathemateg, wedi golygu a chyhoeddi *The Routledge International Handbook of Dyscalculia and Mathematical Learning Difficulties* (Routledge, 2014)<sup>23</sup> sy'n cynnwys 30 o benodau gan arbenigwyr o bedwar ban y byd a sefydliadau yn y sector gwirfoddol.

### **Anhwylder cydsymud datblygiadol**

Roedd y canllawiau rhyngwladol diweddaraf a gyhoeddwyd o'r adolygiad cwmpasu gan Camden et al. yn 2014<sup>24</sup>, ynghyd â chanllawiau diwygiedig ar gyfer y DU, a oedd yn deillio o waith Academi Anabledau Plentyndod Ewrop<sup>25</sup>. Cyhoeddwyd canllawiau anhwylder cydsymud datblygiadol y DU yn dilyn cyfarfodydd consensws y DU yn 2012<sup>26</sup>.

### **Namau iaith a lleferydd**

Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT) wedi gosod canllawiau ar gyfer asesu a gwneud diagnosis iaith a lleferydd. Fodd bynnag, mae gan y rhain ddisgrifiad mwy cyffredinol yn hytrach na'u bod yn benodol i namau ieithyddol penodol/anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac maent yn cyfeirio at 'godau llwybrau' ar gyfer darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA). Hefyd, maent wedi llunio dogfen ar gyfer comisiynu gwasanaethau *Resource Manual for Commissioning and Planning Services for SLCN* (RCSLT, 2009)<sup>27</sup>.

Mae'r Ymddiriedolaeth Gyfathrebu wedi cynhyrchu safle â Fframwaith Lleferydd, iaith a Chyfathrebu sy'n rhestru'r holl sgiliau a gwybodaeth y mae angen i bawb sy'n gweithio gyda dysgwyr feddu arnynt er mwyn cynorthwyo i ddatblygu cyfathrebu pob dysgwr a'r rhai sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu<sup>28</sup>.

### **Llwybrau**

Y llwybr yw'r manylion am yr hyn a wneir ar bob cam er mwyn gwireddu'r canllawiau. Yr hyn sy'n amlwg o'r enghreifftiau yw, ar ôl i chi ddiffinio'r llwybr, mae angen i chi ddarparu'r offer a'r adnoddau priodol i'r cyfranogwyr gwahanol er mwyn ei gyflawni.

---

<sup>22</sup> [www.bdadyslexia.org.uk/about-dyslexia/schools-colleges-and-universities/dyscalculia.html](http://www.bdadyslexia.org.uk/about-dyslexia/schools-colleges-and-universities/dyscalculia.html)[http://scotens.org/sen/resources/dyslexia\\_leaflet\\_maths.pdf](http://scotens.org/sen/resources/dyslexia_leaflet_maths.pdf)

<sup>23</sup> [www.routledge.com/books/details/9780415822855/](http://www.routledge.com/books/details/9780415822855/)

<sup>24</sup> Camden C, Wilson B, Kirby A Sugden, D a Missiuna, C (2014) 'Best practice principles for management of children with developmental coordination disorder (DCD): results of a scoping review' yn *Child: Care, Health and Development* (2014) 41(1) 147–159.

<sup>25</sup> Academi Anabledau Plentyndod Ewrop (EACD) (2011) *EACD Recommendations: Definition, Diagnosis, Assessment and Intervention of Developmental Coordination Disorder (DCD)* (EACD, 2011) [www.eacd.org/publications.php](http://www.eacd.org/publications.php)

<sup>26</sup> [www.movementmattersuk.org/dcd-dyspraxia-adhd-spld/uk-dcd-consensus/pocket-guide-to-uk-dcd-consensus.aspx](http://www.movementmattersuk.org/dcd-dyspraxia-adhd-spld/uk-dcd-consensus/pocket-guide-to-uk-dcd-consensus.aspx)

<sup>27</sup> [www.rcslt.org/speech\\_and\\_language\\_therapy/commissioning/aac\\_plus\\_intro](http://www.rcslt.org/speech_and_language_therapy/commissioning/aac_plus_intro)

<sup>28</sup> [www.communicationhelppoint.org.uk](http://www.communicationhelppoint.org.uk)

Wrth ystyried datblygu llwybrau a phrosesau rhwng addysg ac iechyd, gall fod yn ddefnyddiol edrych ar rai enghreifftiau o 'llwybrau gofal' cenedlaethol a lleol ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anhwylder cydsymud datblygiadol a namau iaith penodol. Gall hyn ddarparu enghreifftiau o offer ac ati a ddatblygwyd eisoes ac, mewn rhai achosion, gellid eu haddasu i'w defnyddio'n lleol. Caiff y term 'llwybr gofal' ei ddefnyddio mwy mewn gwasanaethau gofal iechyd, ond fe'i trafodwyd hefyd wrth ddisgrifio llwybr amlasiantaeth. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o llwybrau ar waith.

**Canllawiau NICE ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd** – Mae'r rhain yn darparu llwybr<sup>29</sup> wedi iddo gael ei nodi y gall dysgwr fod ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.

**Canllawiau anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yng Nghymru** – Datblygwyd llwybrau amlasiantaeth ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anwylderau ar y sbectwm awtistig ac anhwylder cydsymud datblygiadol yn Abertawe, ac adroddodd Salmon, Cleave a Samuels ar y rhain yn 2006, yna diwygiwyd y canllawiau anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn 2010<sup>30</sup>. Mae'r rhain yn disgrifio'r llwybr o addysg i ddarpariaeth gofal iechyd, ynghyd â rôl gweithwyr proffesiynol gwahanol. Maent yn pwysleisio'r angen i gynllunio'n unigol a hefyd yn amlygu penderfyniadau allweddol.

**Llwybr anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd Wolverhampton** – Lluniwyd y llwybr hwn gan grŵp amlasiantaeth a oedd yn cynnwys addysg, gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS), a phaediateg. Maent wedi datblygu llwybr diagnostig ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Caiff dysgwyr eu hatgyfeirio o ffynonellau amrywiol i wasanaethau paediatrig arbenigol neu CAMHS. I ddechrau, mae seicolegydd addysg yr ysgol yn holi'r athro/athrawes (d)dosbarth am y dysgwr. Os oes unrhyw bryderon, bydd y seicolegydd yn cynnal arsylwad strwythuredig o'r dysgwr, gan ei gymharu â dau blentyn cyfeirio yn yr un dosbarth. Bydd y seicolegydd yn eu cymharu o ran yr amser a dreuliwyd yn canolbwyntio ar dasg, amser pan wrthdynnwyd eu sylw neu pan oeddent yn fyrbwyll. Mae hyn yn darparu sgrinio effeithio cyn gellid cynnal asesiad manylach i ddysgwyr y mae pryderon yn eu cylch. Mae'r grŵp amlasiantaeth yn trafod achosion cymhleth. Mae pwynt pwysig wedi deillio o adolygu'r prosesau hyn, oherwydd yr amlygodd fod gan lawer o'r dysgwyr a atgyfeiriwyd ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd gyflyrau eraill, ac eto, dangosodd 'natur orgyffyrddol anhwylderau datblygiadol a'r angen am dull rhyngbroffesiynol'.

**Llwybr anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu Swydd Gaerwrangon**<sup>31</sup> – Mae hyn yn disgrifio proses o adnabod y dysgwyr hynny sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a rhoi cymorth iddynt. Mae'r llwybr yn cynnwys pecyn offer a gwybodaeth.

<sup>29</sup> <http://pathways.nice.org.uk/pathways/attention-deficit-hyperactivity-disorder#path=view%3A/pathways/attention-deficit-hyperactivity-disorder/attention-deficit-hyperactivity-disorder-in-children-and-young-people.xml&content=view-index>

<sup>30</sup> [www.swanseagfl.gov.uk/inclusion/documents/adhd/ADHDenglish2010.pdf](http://www.swanseagfl.gov.uk/inclusion/documents/adhd/ADHDenglish2010.pdf)

<sup>31</sup> [www.worcestershire.gov.uk/slcnpathway](http://www.worcestershire.gov.uk/slcnpathway)



- Offer i helpu i gydnabod ac adnabod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Offer i helpu ymarferwyr i archwilio arfer a sgiliau presennol.
- Canllawiau ar greu a chynnal amgylchedd sy'n 'addas ar gyfer cyfathrebu'.
- Gwybodaeth i rieni a gofalwyr.
- Offer i hyrwyddo cyfranogiad gweithredol a rhoi llais i blant a'u rhieni/gofalwyr.
- Canllawiau a chysylltiadau i hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.
- Llwybr clir ar gyfer atgyfeirio i wasanaethau arbenigol.
- Cyfeiriadau at ffynonellau o wybodaeth a chymorth pellach.

**Llwybr Integredig Cyngor Swydd Derby ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (2013)**<sup>32</sup>. Yn eu dogfen, maent yn disgrifio proses o'r blynyddoedd cynnar, ynghyd â'r adnoddau hyfforddiant ac ati sydd eu hangen i gyflwyno'r gwasanaethau.

## Defnyddio offer sgrinio ac asesu priodol

Mae cannoedd o fesurau sgrinio ac asesu gwahanol yn cael eu defnyddio ledled Cymru i helpu'r gweithlu addysgu, seicolegwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill i gasglu a helpu i ddogfennu proffil o gryfderau a heriau dysgwyr. Gall yr amrywiaeth arwain at rai dulliau anghyson a pheth dryswch ynghylch pa offer sydd fwyaf priodol.

Yn aml, mae darparwyr addysgol yn ffafrio ac yn dod i arfer â rhai asesiadau ac offer sgrinio. Efallai y defnyddiwyd un asesiad ers peth amser, ac felly yr ymddiriedir ynddo. Gall newid defnydd arwain at anghenion hyfforddiant. Hefyd, gall sut a beth i'w ddewis fod yn ddryslyd ar adegau. Gall asesiad ddarparu gwybodaeth bwysig i'w hychwanegu at y darlun o'r dysgwr, a dylai'r nod fod i helpu i benderfynu pa ymyrraeth/ymyriadau i'w (d)defnyddio.

Ar hyn o bryd, mae dadl fawr o hyd ynghylch pa ddiffiniad i'w ddefnyddio ar gyfer pob ADP, sut i wireddu'r diagnosis, a pha offer y dylid eu defnyddio. Nid oes unrhyw gytundeb cyffredinol yn genedlaethol nac yn rhyngwladol. Fodd bynnag, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen ADP Llywodraeth Cymru<sup>33</sup> wedi datblygu diffiniadau o ADP i Gymru (Gweler y Fframwaith ADP).

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Fframwaith ADP i Gymru sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio offer sgrinio cyffredinol i adnabod dysgwyr a all fod mewn perygl o ADP, e.e. y FfLIRh a *Dadansoddiad o gwestiynau'r Profion Darllen Cenedlaethol – dangosydd cychwynnol ar gyfer anawsterau dysgu penodol* (2014), ac yna cymorth priodol, gan gynnwys ymyriadau dal i fyny i geisio datrys y materion. Dylai darparwyr addysgol ystyried y Fframwaith ADP fel y man galw cyntaf. Os bydd y dysgwr yn parhau i gael anhawster, yna dylid defnyddio asesiad i amlygu ymyriadau mwy dwys.

Cyn ystyried y Fframwaith ADP i amlygu pa offer sgrinio ac asesu i'w defnyddio ar gyfer ADPau, mae'n hanfodol bod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o:

<sup>32</sup> [www.speech.derbys.nhs.uk/documents/topapril2013slcnpthwaydoc.pdf](http://www.speech.derbys.nhs.uk/documents/topapril2013slcnpthwaydoc.pdf)

<sup>33</sup> [www.learning.wales.gov.uk/news/events/spld-task-finish-group/?skip=1&lang=cy](http://www.learning.wales.gov.uk/news/events/spld-task-finish-group/?skip=1&lang=cy)

- ddatblygiad nodweddiadol ac annodweddiadol
- diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer pob ADP
- egwyddorion sgrinio ac asesu
- gwybodaeth gyfredol am yr hyn sy'n gweithio i dargedu ymyrraeth yn briodol ac yn effeithiol yn y maes penodol hwnnw
- egwyddorion monitro a sut i ddefnyddio mesurau canlyniadau.

Mae hyn yn darparu dull i benderfynu sut, pryd a pham rydych yn sgrinio neu'n cynnal asesiad, a pha wybodaeth y bydd yn ei rhoi i chi er mwyn targedu a dewis yr ymyrraeth fwyaf priodol.

Mae rhai camau gweithredu a all helpu i gynyddu cysondeb ar draws ALLau. Mae dechrau ag iaith gyffredin a defnyddio diffiniadau cyson yn caniatáu i'r iaith a'r termau a ddefnyddiwn rhyngom i olygu'r un peth mewn unrhyw ddeialog, e.e. rhwng y rhiant/gofalwr a'r addysgwyr; rhwng yr addysgwyr a'r gweithiwr iechyd proffesiynol. Gall hyn fod yn ddisgrifyddion cyffredin, fel yn y ddogfen hon, neu ddiffiniadau rhyngwladol cytûn, fel y *ICD-10 Classification of Mental and Behavioural Disorders*, sef system dosbarthiad meddygol a ddatblygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Fel arall, defnyddir *Diagnostic and Statistical Manual of Mental Disorders (DSM-5)* Cymdeithas Seiciatrig America<sup>34</sup>. Caiff y ddwy system dosbarthu hyn ei defnyddio ar gyfer dosbarthiad diagnostig anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anhwylder cydsymud datblygiadol, e.e. yn y DU gan weithwyr iechyd proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r llawlyfrau hyn yn darparu unrhyw arwydd penodol o ba offer sgrinio ac asesu y dylid eu defnyddio.

### Dewis offer sgrinio ac asesu

Wrth ddewis offer ar gyfer sgrinio neu asesu:

- mae angen iddynt fod wedi eu datblygu o egwyddorion cadarn ac o sylfaen ymchwil
- mae hefyd yn bwysig ystyried yr amser sydd ei angen a'r sgil gweinyddu, oherwydd y gall fod angen mwy o amser staff arnynt ac efallai y byddant yn disodli amser addysgu
- mae angen hyfforddiant a gwybodaeth benodol i weinyddu rhai offer, ac yna dehongli'r sgoriau (gall dehongli mynegeion niferus fod yn dasg gymhleth a llafurus, yn enwedig os ydynt ar bapur, oherwydd y gall fod angen sgorio, marcio a dehongli canlyniadau).

Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys:

- **oedran y dysgwyr.** Ymhlith dysgwyr ifanc iawn, gall caffael cerrig milltir datblygiadol amrywio'n fawr, a gall hyn ei gwneud yn anoddach penderfynu a oes unrhyw anhawster neu oedi penodol oherwydd diffyg profiad. Weithiau, gall offer yn yr oedran hwn fod yn llai sensitif am y rheswm hwn. Mae rhai asesiadau wedi eu llunio i'w defnyddio ar gyfer grwpiau oedran penodol yn unig

<sup>34</sup> [www.dsm5.org/Documents/changes%20from%20dsm-iv-tr%20to%20dsm-5.pdf](http://www.dsm5.org/Documents/changes%20from%20dsm-iv-tr%20to%20dsm-5.pdf)

- **y lleoliad.** Mae rhai offer asesu wedi eu datblygu ar gyfer cyd-destun penodol e.e. un-i-un ac nid mewn grŵp
- **sut i gymharu canlyniadau asesiadau.** Bydd cynnwys dau brawf sy'n profi pethau tebyg, fel y tybir, yn wahanol, e.e. asesiadau sillafu. Mae'n bwysig cofio na ellir cymharu canlyniadau'n uniongyrchol bob tro. Bydd pob un ohonynt yn adnabod dysgwyr gwahanol.
- **sut mae'r asesiad yn eich helpu chi?** Dylai asesiad fod yn fwy na sgôr yn unig. Yn aml, gall gwylio sut mae myfyriwr yn gwneud asesiad fod yr un mor ddefnyddiol ag edrych ar y sgôr. Gall patrwm yr ymatebion fod yn ddefnyddiol hefyd, e.e. gall asesiad sillafu ddarparu gwybodaeth am ble mae'r heriau sillafu, a hefyd os yw ar gyfrifiadur, gall ddarparu amseriadau ar gyfer ymatebion y dysgwr.

**Mae asesiad yn un rhan yn unig o'r wybodaeth sydd ei hangen wrth gynllunio ymyrraeth. Mae cael gwybodaeth gadarn a chynhwysfawr i lunio proffil o gryfderau a heriau'r dysgwr yn ddull da, beth bynnag fo'r diagnosis.**

### **Sgrinio cyffredinol**

Er nad oes unrhyw dystiolaeth o sgrinio poblogaeth i ganfod unrhyw ADP neu bob un ohonynt, gall defnyddio sbardunau gweithredu fel pryder rhieni/gofalwyr neu athrawon; cydnabod bod dysgwr yn methu o gymharu â'i gyfoedion/chyfoedion, e.e. o wybodaeth a geir trwy gynnal sgrinio rheolaidd ar gyfer llythrennedd a rhifedd (e.e. y FfLIRh<sup>35</sup>); neu os yw'r dysgwr yn dangos oedi yn ei (d)datblygiad (e.e. gan ddefnyddio fframwaith ac offer Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar<sup>36</sup>) eich sbarduno i gynnal sgrinio pellach ar gyfer agweddau penodol ar ddysgu neu ymddygiad.

Dywed canllawiau cydnabyddedig ar gyfer dyslecsia, anhwylder cydsymud datblygiadol ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd y canlynol.

Mewn perthynas â dyslecsia, dywed Adroddiad Rose<sup>37</sup>:

'...blanket screening for dyslexia of all children on entry to school is questionable, not least because screening tests for this purpose are as yet unreliable.'

Dywed canllawiau anhwylder cydsymud datblygiadol y DU<sup>38</sup>.

'The use of questionnaires...is not recommended for population-based screening for DCD.'

<sup>35</sup> [learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/nlnf/?skip=1&lang=cy](http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/nlnf/?skip=1&lang=cy)

<sup>36</sup> [learning.wales.gov.uk/news/sitenews/assessment-framework/?skip=1&lang=cy](http://learning.wales.gov.uk/news/sitenews/assessment-framework/?skip=1&lang=cy)

<sup>37</sup> Rose, J (2009) *Identifying and Teaching Children and Young People with Dyslexia and Literacy Difficulties* (DCSF, 2009)

<sup>38</sup> [www.movementmattersuk.org/dcd-dyspraxia-adhd-spld/uk-dcd-consensus/pocket-guide-to-uk-dcd-consensus.aspx](http://www.movementmattersuk.org/dcd-dyspraxia-adhd-spld/uk-dcd-consensus/pocket-guide-to-uk-dcd-consensus.aspx)

Dywed canllawiau NICE ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd<sup>39</sup> ni ddylid cynnal sgrinio cyffredinol ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd mewn ysgolion neu feithrinfeydd. Wrth atgyfeirio i Gydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (CydAAA), dylai'r CydAAA helpu dysgwyr sydd ag anhwylder ymddygiad ac y tybir bod ganddynt anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd â'u hymddygiad a rhoi gwybod i'w rhieni/gofalwyr am raglenni hyfforddiant/addysg lleol i rieni/gofalwyr.

### **Sgrinio ar gyfer ADPau**

Gall sgrinio fod yn ffordd o amlygu'n gyflym lle mae angen ymchwilio ymhellach pan fydd rhiant/gofalwr, athro/athrawes neu dysgwr yn mynegi pryder am y tro cyntaf, neu os bydd gweithiwr proffesiynol y tu allan i'r lleoliad addysgol, fel ymwelydd iechyd, eisoes wedi nodi oedi. Mae llawer o offer sgrinio neu restrau gwirio ar gyfer pob un o'r ADPau, a all fod yn ffordd ddefnyddiol, gyflym i gasglu mwy o wybodaeth am y dysgwr. Mae rhai ALLau wedi creu eu rhestrau gwirio eu hunain. Fodd bynnag, dylai'r holl offer sgrinio ddilyn egwyddorion cadarn o fod â sensitifrwydd a phenodolrwydd rhesymol bob tro (gweler Atodiad 3 ar dudalen 35 ar gyfer rhestr termau yn ymwneud â sgrinio ac asesu). Dylent fod yn hawdd eu defnyddio ac ni ddylai fod angen llawer o hyfforddiant i'w defnyddio.

Gallai un defnydd penodol ar gyfer sgrinio fod lle mae oedi eisoes wedi ei amlygu trwy sgrinio cyffredinol ar gyfer llythrennedd a rhifedd (e.e. y FfLIRh). Os amlygwyd bod gan y dysgwr un maes ag anhawster, e.e. sillafu, yna gellid defnyddio offer sgrinio ar gyfer ADPau eraill, a fyddai'n dangos lle y gallai fod angen asesiad pellach neu, mewn rhai achosion, atgyfeiriad (cofiwch fod pob ADP yn gorgyffwrdd). Hefyd, gellid defnyddio offeryn sgrinio â'r rhai sydd â risg uwch o fod ag ADP, fel wrth ddechrau mewn UCD (oherwydd eu bod yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol i fod ag ADP<sup>40</sup>).

### **Asesu ar gyfer ADPau**

Fel arfer, caiff asesiadau eu defnyddio i ddeall yn fanylach beth a ble mae'r maes/meysydd anhawster neu her penodol i'r dysgwr, a helpu i gynllunio cymorth neu ymyrraeth. Gellir eu defnyddio fel meincnod hefyd i wybod a wnaed unrhyw gynnydd.

### **Sgrinio ac asesu ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd**

Mae nifer o offer sgrinio sydd wedi eu datblygu'n benodol ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Efallai ei bod yn well gan weithwyr iechyd proffesiynol lleol ddefnyddio asesiad penodol fel rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth i ystyried gwneud diagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Wrth sgrinio ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, mae'n bwysig casglu gwybodaeth gan rieni, athrawon a'r dysgwr, lle bo hynny'n bosibl. Fel arfer, caiff ymddygiad ei arsylwi hefyd ac weithiau caiff hyn ei wneud gan aelod o dîm CAMHS, yn ymweld â'r lleoliad addysgol, ambell waith.

<sup>39</sup> [www.nice.org.uk/guidance/CG72](http://www.nice.org.uk/guidance/CG72)

<sup>40</sup> Parker, C, Whear, R, Ukoumunne, OC, Bethel, A, Thompson-Coon, J, Stein, K, a Ford, T (2014) 'School exclusion in children with psychiatric disorder or impairing psychopathology: a systematic review' o *Emotional and Behavioural Difficulties* (Routledge, 2014) DOI:10.1080/13632752.2014.945741

Dylai asesiad ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd gael ei gynnal gan weithwyr proffesiynol â chymwysterau a hyfforddiant priodol. Fel arfer, aelod o dîm CAMHS neu'r paediatregydd cymunedol sy'n ymgymryd â'r rôl hon, ar ôl cael gwybodaeth gan y darparwr addysg a rhieni/gofalwyr.

### **Sgrinio ac asesu ar gyfer dyslecsia/llythrennedd**

Oherwydd bod dyslecsia yn ymwneud â methu caffael sgiliau llythrennedd penodol, mae'n bwysig deall rhinweddau perthynol sgrinio ac asesu, a'u canlyniadau. Daeth Adroddiad Rose<sup>41</sup> yn 2009 ac astudiaeth meincnodi Cymru<sup>42</sup> yn 2012 i gasgliadau tebyg y caiff ei gytuno'n gyffredinol, po gynharaf y caiff anawsterau dyslecsig/llythrennedd eu hamlygu, y gorau yw'r siawns o roi dysgwyr ar y trywydd iawn i lwyddo.

Gall oedi yn natblygu iaith a lleferydd dysgwr yn y blynyddoedd cynnar fod yn un 'faner goch'. Hefyd yn y blynyddoedd cynnar, dangoswyd bod defnyddio asesiadau sillafu (ac yn benodol sillafu nad yw'n sillafu geiriau) yn effeithiol o ran adnabod y rhai sydd ag anawsterau darllen. Gall hyn gynnig awgrymiadau ar gyfer ymyriadau di-oed yn yr ystafell ddosbarth heb orfod aros am asesiad llawn.

Mae'n bwysig deall yr ystod lawn o anawsterau'r dysgwr a all gynnwys datgodio gwael, sgiliau gwranddo a deall gwael, cof gwael yn ogystal â phroblemau eraill. Mae Snowling ac ymchwilwyr eraill yn disgrifio tri math o ddarllenwyr gwael – y rhai sydd â sgiliau datgodio gwael, y rhai sydd â sgiliau gwranddo a deall gwael, a'r rhai sydd â'r ddau anhawster. Gall sgrinio cyffredinol ar gyfer llythrennedd, fel y defnyddir yn y FfLIRh<sup>43</sup> ddal llawer o ddysgwyr sydd ag anawsterau, ond efallai na fyddant yn dal pob un ohonynt, na phroffil cyflawn y dysgwr.

Y cam cyntaf o ran amlygu y gall fod gan ddysgwyr anawsterau llythrennedd yw sylwi pwy sy'n gwneud cynnydd gwael o gymharu â'u cyfoedion sy'n datblygu'n nodweddiadol, er gwaethaf addysgu o ansawdd uchel. Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain<sup>44</sup> yn nodi bod llawer o wahanol fathau o offer sgrinio y gellir eu defnyddio.

'Some are delivered by computer, others need to be administered by a teacher. Some just give an estimate as to whether the child/person is likely to have dyslexic difficulties. A few offer a more detailed profile of strengths and weaknesses which help inform an appropriate teaching strategy.'

Pan gaiff anawsterau llythrennedd eu hamlygu, dylid ystyried ffactorau eraill hefyd, gan gynnwys faint o brofiad y mae'r dysgwr wedi ei gael, a'r posibilrwydd sydd ganddynt o unrhyw gyflyrau iaith, clybodol neu weledol sylfaenol, a all fod yn cyfrannu at unrhyw anawsterau a amlygwyd. I ddechrau, dylai ymarferwyr ystyried y Fframwaith ADP cyn cynnal sgrinio cychwynnol i adnabod dysgwyr sydd mewn perygl. Lle y bo'n briodol, dylid ymgynghori ag ALLau pan gall fod angen lefelau uwch o gymorth.

---

<sup>41</sup> Rose, J (2009) *Identifying and Teaching Children and Young People with Dyslexia and Literacy Difficulties* (DCSF, 2009)

<sup>42</sup> [www.gov.wales/statistics-and-research/research-dyslexia-provision/?skip=1&lang=cy](http://www.gov.wales/statistics-and-research/research-dyslexia-provision/?skip=1&lang=cy)

<sup>43</sup> <http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/nlnf/?skip=1&lang=cy>

<sup>44</sup> <http://www.bdadyslexia.org.uk/educator/screening-and-assessment>

### **Sgrinio ac asesu ar gyfer dyscalcwlia/mathemateg**

Y cam cyntaf o ran adnabod y gall plant fod ag anawsterau mathemateg penodol neu ddyscalcwlia yw sylwi ar y dysgwyr hynny'n sy'n gwneud cynnydd gwael o gymharu â'u cyfoedion sy'n datblygu'n nodweddiadol, er gwaethaf addysgu o ansawdd uchel. Mae dogfen y FfLIRh yn cynnwys yr arweiniad hwn, gan gynnwys llwybrau at rifedd a'r cydrannau rhifedd ar gyfer oeddrannau a chyfnodau gwahanol, sy'n darparu fframwaith datblygiadol rhagorol ar gyfer mapio sgiliau dysgwyr.

Mae hefyd yn bwysig diystyru unrhyw anawsterau clybodol, iaith neu weledol sylfaenol a all fod yn cyfrannu at yr anawsterau a amlygwyd.

Mae llawer o wahanol fathau o offer sgrinio y gall ALLau eu defnyddio. Caiff rhai ohonynt eu cyflawni gan gyfrifiadur, mae angen i eraill gael eu gweinyddu gan athro. Mae rhai ohonynt yn rhoi amcangyfrif yn unig ynghylch p'un a yw'r dysgwr yn debyg o fod ag anawsterau mathemateg neu ddyscalcwlia. Mae ychydig ohonynt yn cynnig proffil manylach o gryfderau a gwendidau, sy'n helpu i lywio strategaeth addysgu briodol.

### **Sgrinio ac asesu ar gyfer anhwylder cydsymud datblygiadol/cydsymud**

Dylai oedi o ran datblygiad echddygol, neu bryder gan athrawon neu rhieni/gofalwyr fod yn sbardun ar gyfer sgrinio pellach i ddal patrwm a'r meysydd sy'n peri her i'r dysgwr<sup>45</sup>.

Mae nifer o offer sgrinio ar gyfer ar gyfer anhwylder cydsymud datblygiadol. Fodd bynnag, ni ellir eu defnyddio'n gydgyfnewidiol, oherwydd y ceir tystiolaeth nad yw pob un ohonynt yn canfod yr un dysgwyr ag anawsterau echddygol oherwydd eu bod yn defnyddio cwestiynau gwahanol a'u bod yn amrywio o ran eu sensitifrwydd a'u penodolrwydd. Gall defnyddio offeryn sgrinio fod yn ffordd ragorol i gasglu gwybodaeth o arsylwi yn y dosbarth, ar y buarth a gartref, sy'n gallu helpu i ganolbwyntio ar flaenoriaethau wrth osod nodau.

Mae nifer o offer asesu safonol ar gael. Mae angen i'r rhan fwyaf o'r rhain gael eu defnyddio gan bobl â chymwysterau a hyfforddiant addas er mwyn gwneud diagnosis, ac i wirio am resymau posibl eraill dros anawsterau echddygol.

### **Sgrinio ac asesu ar gyfer namau iaith penodol**

Nid yw systemau dosbarthu rhyngwladol yn manylu ar ba brofion darllen neu iaith safonol y dylid eu defnyddio, er y gall hyn wneud gwahaniaeth tyngedfennol o ran p'un a amlygir bod gan dysgwyr nam, a pha faes yn benodol sy'n peri trafferth i'r dysgwr hwnnw.

---

<sup>45</sup> Definition, Diagnosis, Assessment and Intervention of Developmental Coordination Disorder (DCD) (AWMF, 2011)

<http://www.movementmattersuk.org/content/documents/Revised%20EACD%20UK%20Recommendations%20Pocket%20Guidelines.pdf>

Mae Bishop<sup>46</sup> <sup>47</sup>, ac arbenigwyr eraill yn y maes wedi trafod pwysigrwydd cydnabod arwyddion i amlygu namau iaith penodol, yn enwedig pan fydd 'datblygiad iaith yn disgyn ymhell y tu ôl i blant o oedran tebyg', a bod y 'problemau'n amharu ar fywyd bob dydd a chyflawniad yn yr ysgol'.

Dylai pryder gan rieni/gofalwyr neu athrawon fod yn sbardun ar gyfer monitro pellach bob tro. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o rai o'r arwyddion a ddylai arwain at hyn.

- Nid yw'n siarad llawer.
- Mae ei (h)iaith yn anaeddfed ar gyfer ei (h)oedran.
- Mae'n cael trafferth dod o hyd i eiriau.
- Nid yw'n ymddangos ei fod/bod yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud.
- Mewn dysgwyr hŷn, efallai na fydd yn deall geiriau ysgrifenedig (o gymharu â'u cyfoedion).

Mae offer sgrinio a rhestrau gwirio'n canolbwyntio'n bennaf ar yr arwyddion posibl i fod yn ymwybodol ohonynt a fyddai'n arwain at asesiad ffurfiol manylach gan ddefnyddio offer safonol. Mae Swanson<sup>48</sup> wedi trafod y gall manteisio ar therapyddion iaith a lleferydd arwain at asesiadau ffurfiannol mwy mynych yn yr ystafell ddosbarth ambell waith, a chynnal llai o asesiadau ffurfiol.

Wrth wneud diagnosis o nam iaith penodol, mae hefyd yn bwysig gwirio nad oes unrhyw resymau eraill dros yr anawsterau, fel colli clyw, niwed caffaeledig i'r ymennydd neu ddiffyg profiad.

## Arweiniad ar ymyrraeth a rheolaeth

Nid yw pob ADP yn cynrychioli un maes her unedol, ond mae'n cynnwys amrywiaeth o elfennau a nodweddion. Er mwyn ymyrryd ar gyfer pob dysgwr ag ADP, mae'n bwysig deall nid yn unig y maes anhawster a amlygwyd, ond hefyd cael darlun o'r dysgwr cyfan yng nghyd-destun ei fywyd/bywyd. Yr enw ar hyn yw dull ecolegol.

Mae'r canlynol yn pwyntiau allweddol i'w hystyried (gweler Atodiad 5 am restr wirio wrth ystyried dulliau ymyrraeth).

- **Mae ymyrraeth yn dechrau ag addysgu o ansawdd da ac arfer digonol a phriodol** yn yr ystafell ddosbarth, fel arfer, a gweithio gyda'r rhieni/gofalwyr neu warcheidwaid gartref i atgyfnerthu'r sgiliau hyn.
- **Mae defnyddio dulliau amlsynhwyraidd** yn egwyddor generig ar draws pob ADP. Y sail resymegol ar gyfer hyn yw darparu dulliau amrywiol i fodloni anghenion ystod o ddysgwyr gwahanol mewn dosbarth, grŵp ac mewn lleoliadau un-i-un.

---

<sup>46</sup> Bishop, DVM and Snowling, M . (2004) 'Developmental Dyslexia and Specific Language Impairment: Same or Different?' yn *Psychological bulletin* 130(6) 858–886 (2004)

<sup>47</sup> [www.slideshare.net/RALLICampaign/how-is-specific-language-impairment-identified-13957123?related=2](http://www.slideshare.net/RALLICampaign/how-is-specific-language-impairment-identified-13957123?related=2)

<sup>48</sup> Swanson, PB and Nolde, PR (2011) 'Assessing Student Oral Language Proficiency: Cost-Conscious Tools, Practices and Outcomes' yn *The IALLT Journal* (2011) 41(2) 72–88

- **Gall cynnydd dysgwyr amrywio.** I rai dysgwyr, gall cynnydd fod yn araf a gall y cam cyntaf o ran gwella fod yn gysylltiedig â gwella hyder, hyd yn oed cyn gweithio ar gymwyseddau er mwyn annog y dysgwr i fod yn llawn cymhelliant. Yn sicr, gall hyn fod yn wir â rhai dysgwyr yn yr UCD a all fod wedi eu difreinio o addysg eisoes.
- **Cost effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd amser.**
- **Dylid gosod nodau** ar gyfer pob ADP ar ddechrau'r ymyrraeth. Dylid rhoi blaenoriaeth i nodau a osodir ar lefel gweithgareddau a chyfranogiad, a dylid ystyried safbwynt/blaenoriaethau'r plentyn, rhiant/gofalwr a'r addysgwr.
- **Dylid cynnal arfarniad o effaith ymyrraeth.** Dylai mesurau ystyried yr effaith a'r gwelliant mewn cyfranogiad a gweithgareddau â chyfoedion, ynghyd â mesurau penodol o'r sgiliau a gafwyd. Weithiau, caiff hyn ei alw'n drosglwyddedd. Gall ffynonellau arfarnu fod trwy asesu, arsylwi a geir trwy adroddiadau rhieni/gofalwyr ac athrawon, ac o adroddiadau'r feithrinfa/lleoliad cyn-ysgol/ysgol, a 'llais' y dysgwr.

Gwnaeth awduron ymchwil i'r ddarpariaeth ar gyfer dyslecsia yng Nghymru<sup>49</sup> bwynt cyffredinol pwysig yn ymwneud ag effeithiolrwydd a chost effeithiolrwydd wrth ystyried dulliau ymyrraeth o bob math:

'It is important to make sure that intervention is not only effective, but is also cost effective...Cost effectiveness can be estimated based on the amount of benefit conferred by the intervention, over and above the regular teaching provision (i.e., the *added value effect size*), and on the number of hours of teacher input per child. One important finding in this respect is that intervention provided in small groups can be just as effective as working with children individually, particularly with younger and less severely impaired children.'

Mae'n hanfodol monitro effeithiolrwydd unrhyw ymyrraeth. Wrth i gyfrifiaduron gael eu defnyddio'n gynyddol yn yr ystafell ddosbarth, gall cyflwyno dulliau sgrinio, asesu a monitro cyfrifiadurol arbed amser, arian a chyflwyno gwybodaeth newydd a manylach am y dysgwr na ellid ei gael yn flaenorol (e.e. dadansoddiad neu sgoriau, amser a gymerwyd i gwblhau, cymariaethau rhwng dysgwyr), gan ei gwneud yn haws amlygu lle mae'r heriau a darparu arweiniad ar ble a sut i ymyrryd.

Cyn dechrau ymyrryd, mae'n angenrheidiol ac yn bwysig casglu gwybodaeth i lunio cynllunio a gosod nodau. Yn Lloegr, awgrymodd y Llwybr Addysg, Iechyd a Gofal (EHC)<sup>50</sup> ar gyfer teuluoedd sy'n newydd i'r system AAA, a lanswyd yn 2014, ystod o ffynonellau gwybodaeth ac adnoddau y gellir ei defnyddio i bennu dadansoddiad clir o angen dysgwr, a chynorthwyo'r broses hon. Mae'r ddogfen *Everybody Included: The SEND Code of Practice explained* (NASEN)<sup>51</sup> yn disgrifio'r angen i gynnwys:

- arfarniad athrawon a phrofiadau'r disgybl
- cynnydd, cyrhaeddiad ac ymddygiad disgyblion

<sup>49</sup> [www.gov.wales/statistics-and-research/research-dyslexia-provision/?skip=1&lang=cy](http://www.gov.wales/statistics-and-research/research-dyslexia-provision/?skip=1&lang=cy)

<sup>50</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/275104/RR326B\\_EHC\\_planning\\_pathway\\_-\\_FINAL.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/275104/RR326B_EHC_planning_pathway_-_FINAL.pdf)

<sup>51</sup> [www.sendgateway.org.uk/download.everybody-included-the-send-code-of-practice-explained.html](http://www.sendgateway.org.uk/download.everybody-included-the-send-code-of-practice-explained.html).



- datblygiad y dysgwr o gymharu â'i gyfoedion/chyfoedion
- barn a phrofiad rhieni
- barn y dysgwr ei hun
- cyngor gan wasanaethau cymorth allanol.

Maent yn mynd ymlaen i ddisgrifio'r angen am ystod o offer i amlygu'r anghenion:

'...It may well be necessary to explore further the precise gaps in the pupil's learning and development and to clarify what the barriers to learning may be. It is good practice to look afresh at the range of individualised assessment 'tools' and approaches the school itself can access to support this closer identification of need, such as:

- Standardised tests.
- Criterion-referenced assessments and checklists.
- Profiling tools, for example for behaviour and speech, language and communication needs.
- Observation schedules and prompt sheets.
- Questionnaires for parents.
- Questionnaires for pupils.
- Screening assessments, for example for dyslexia.'

### **Ymyriadau anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd**

Mae canllawiau NICE y DU<sup>52</sup> yn amlinellu arweiniad ar ymyrryd a rheoli anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Mae'n disgrifio fel y dylai athrawon sydd wedi cael hyfforddiant ar anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd a sut i'w reoli ddarparu ymyriadau ymddygiadol yn yr ystafell ddosbarth i helpu dysgwyr a phobl ifanc sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni hyfforddiant/addysg i rieni/gofalwyr.

Dywed y canllawiau y dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnig atgyfeiriad i rieni neu ofalwyr dysgwyr cyn-ysgol sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd i raglen hyfforddiant/addysg i rieni/gofalwyr fel y driniaeth gyntaf, os nad yw'r rhieni/gofalwyr eisoes wedi mynychu'r cyfryw raglen neu os cafodd y rhaglen effaith gyfyngedig. Os yw'r dysgwr yn cael ei (g)weld gan ddarpariaeth iechyd/CAMHS a bod gan y dysgwr ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd nam cymedrol, dywed canllawiau NICE y dylid cynnig atgyfeiriad i rieni/gofalwyr i raglen hyfforddiant/addysgu mewn grŵp i rieni/gofalwyr, naill ai ar ei ben ei hun neu ynghyd â rhaglen triniaeth grŵp (fel therapi ymddygiad gwybyddol a/neu hyfforddiant sgiliau cymdeithasol) i'r dysgwr.

### **Triniaeth â chyffuriau i ddysgwyr oed ysgol**

Dywed NICE y dylid cynnig triniaeth â chyffuriau fel y driniaeth gyntaf i ddysgwyr oed ysgol sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd difrifol, ynghyd â rhaglen hyfforddiant/addysg mewn grŵp i rieni/gofalwyr. Mae'r canllawiau'n mynd ymlaen i ddweud y dylai triniaeth â chyffuriau (e.e. methylphenidate neu atomoxetine) i ddysgwyr ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ffurfio

<sup>52</sup> <http://www.nice.org.uk/guidance/CG72>

rhan o gynllun triniaeth cynhwysfawr bob tro, sy'n cynnwys cyngor ac ymyriadau seicolegol, ymddygiadol ac addysgol.

### **Defnyddio hyfforddiant gwybyddol**

Mae'r dystiolaeth yn darparu rhywfaint o gefnogaeth i ddefnyddio hyfforddiant gwybyddol ar gyfer dysgwyr sydd â diffyg sylw neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o welliant mewn rhai deilliannau academaidd, ond nid mewn eraill, ac roedd rhywfaint o dystiolaeth o welliannau mewn symptomau anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn y byrdymor, megis gwell gweithredu gweithredol, h.y. y gallu i gynllunio a threfnu neu hunanreoli, ond mae'r budd o ran symptomau ymddygiadol yn fwy ansicr.

### **Canllawiau defnyddiol eraill**

Mae canllawiau defnyddiol eraill a gyhoeddwyd ag awgrymiadau ar gyfer rheoli anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn cynnwys y canlynol.

- Canllawiau SIGN<sup>53</sup> (SIGN, 2009), a oedd â'r nod o ddarparu fframwaith ar gyfer asesu a rheoli anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd/anhwylder gorginetig ar sail tystiolaeth, y gellir ei gymhwyso mewn dull aml-ddisgyblaethol ac amlasiantaeth lleol.
- Canllawiau ymyrraeth Cymdeithas Seicoffarmacoleg Prydain (2014)<sup>54</sup>. Mae'r canllawiau'n crynhoi llenyddiaeth gyfredol, ac yn creu argymhellion consensws arbenigol ar gyfer trin anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd mewn plant ac oedolion.

### **Ymyriadau dyslecsia a llythrennedd**

Yn adroddiad Rose (2009), mae'r Athro Greg Brooks yn gwneud pwynt pwysig iawn yn ymwneud ag ymyrraeth ar gyfer llythrennedd/dyslecsia:

'In order to judge whether an initiative has really made a difference, it is not enough just to ask the participants – they will almost always say it has. So quantitative data on the learners' progress are essential, measured by appropriate tests of reading, spelling or writing.'

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud:

'Intervention programmes are best delivered by teachers who understand how to attune a programme to a child's learning difficulties, or by trained classroom support staff who are well managed by such teachers.'

---

<sup>53</sup> [www.sign.ac.uk/guidelines/fulltext/112/](http://www.sign.ac.uk/guidelines/fulltext/112/)

<sup>54</sup> Bolea-Alamañac, B, Nutt, DJ, Adamou, M, Asherson, P, Bazire, S, Coghill, D, Heal, D, Müller, U, Nash, J, Santosh, P, Sayal, K, Sonuga-Barke, E and Young, SJ 'Evidence-based guidelines for the pharmacological management of attention deficit hyperactivity disorder: Update on recommendations from the British Association for Psychopharmacology' yn *Journal of Psychopharmacology* (SAGE, 2014) [www.bap.org.uk/pdfs/ADHD\\_Guidelines.pdf](http://www.bap.org.uk/pdfs/ADHD_Guidelines.pdf)

Mae adroddiad Rose yn disgrifio 'tair Ton Darpariaeth'<sup>55</sup>.

**Ton 1** – Addysgu Ansawdd yn Gyntaf. Mae hyn yn disgrifio darparu gwaith ffonig systematig o ansawdd uchel fel rhan o gwricwlwm eang a chytbwys sy'n ennyn diddordeb plant mewn ystod o weithgareddau a phrofiadau i ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando a'u hymwybyddiaeth ffonolegol.

**Ton 2** – Ymyriadau mewn grwpiau bach ac un-i-un i ddysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i gyflawni'n well, y gellir ei ddarparu trwy raglenni ymyrraeth â therfyn amser mewn grwpiau bach sy'n cael eu cyflwyno gan aelod o dîm cymorth yr ysgol yn yr ystafell ddosbarth, a fydd yn symud cynnydd plant ymlaen ac yn eu helpu i gyflawni'n unol â'u cyfoedion.

**Ton 3** – Darperir cymorth dwys i'r plant hynny y mae angen dull personol rhaglen sydd wedi ei theilwra i'w hanghenion penodol, sy'n aml yn ddwys, arnynt. Fel arfer, caiff ei addysgu fel rhaglen un-i-un gan athro/athrawes neu aelod o'r staff cymorth sydd wedi ymgymryd â rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol ar gyfer addysgu plant ag anawsterau darllen.

Caiff y dull graddedig hwn ei adlewyrchu yn y FfLIRh Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, a'r *Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd* (Llywodraeth Cymru, 2012)<sup>56</sup>. Os caiff ei amlygu bod dysgwyr yn disgyn ar ei hôl hi â'u sgiliau llythrennedd yn gyntaf, y cam cyntaf fyddai defnyddio'r arweiniad a'r egwyddorion a ddisgrifir. Os nad yw'r rhain yn helpu cynnydd y dysgwr, yna bryd hynny byddai archwiliad agosach ac asesiad manylach yn cael eu cynnal i ystyried beth yw'r problemau llythrennedd a lle y maent.

Gall fod angen i asesiadau ar y cyfnod hwn edrych ar ffoneg, cof gweithredol, gallu i glywed y synau, sgiliau gweledol a gwirio beth yw'r heriau ar gyfer y dysgwr hwnnw a lle y gallant fod.

Mae gan adroddiad meincnodi Cymru<sup>57</sup> wybodaeth benodol am arweiniad ymyrraeth hefyd, ac mae'n tynnu sylw at y ffaith y bydd angen dull mwy dwys sydd wedi ei deilwra'n arbennig ar rai dysgwyr er mwyn gwella eu sgiliau. Dywed casgliadau'r adroddiad hwnnw mae gwella ymwybyddiaeth o ffonemau a defnyddio dulliau ffoneg systematig sydd wedi eu hymgorffori mewn cwricwlwm llythrennedd eang yn ddull defnyddiol, a dysgwyr ifanc sy'n cael y buddion mwyaf. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai dysgwyr sydd 'mewn perygl' gael eu hadnabod yn y blynyddoedd cyn-ysgol a blynyddoedd cynnar yr ysgol, a dylent gael ymyrraeth systematig sydd wedi ei strwythuro'n dda. Fodd bynnag, dylid cofio na fydd nifer gyson o ddysgwyr ag anawsterau difrifol a dwys yn ymateb yn dda i driniaeth. Yn aml, ni fydd y dysgwyr hyn yn gwella, er gwaethaf mewnbyn o'r blynyddoedd cynnar, a bydd angen help arbenigol arnynt yn yr ysgol o hyd. Mae angen lefelau uwch a hirfaith o adnoddau arnynt ar gyfer eu darpariaeth addysgol. Serch hynny, gallai nifer y dysgwyr hyn gael ei lleihau'n sylweddol trwy ymyrraeth gynnar, gan sicrhau y caiff cyllid ei ganolbwyntio ar y dysgwyr hynny sydd ag anawsterau sydd wedi eu hymwreiddio.

<sup>55</sup> <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130401151715/http://www.education.gov.uk/publication/eOrderingDownload/00659-2009DOM-EN.pdf>

<sup>56</sup> <http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/121105guidanceforlitnumcatchupcy.pdf>

<sup>57</sup> [www.gov.wales/statistics-and-research/research-dyslexia-provision/?skip=1&lang=cy](http://www.gov.wales/statistics-and-research/research-dyslexia-provision/?skip=1&lang=cy)

### **Ymyriadau mathemateg/dyscalwlia**

Gwnaeth y ddogfen *What Works for Children with Mathematical Difficulties?* (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2009) bwynt pwysig nad yw anawsterau mathemateg yn un ardal her unedol, ond eu bod yn cynnwys amrywiaeth o gydrannau gan gynnwys cyfrif, cof ar gyfer ffeithiau rhifyddol, deall cysyniadau, a'r gallu i ddilyn gweithdrefnau. Mae gan bob un o'r cydrannau hyn isgydrannau hefyd. Efallai y bydd gan bob dysgwr un neu fwy o wendidau penodol y gall fod angen mynd i'r afael â nhw, a gallant fod yn arwahanol yn eu rhinwedd eu hunain.

Mae rhai dysgwyr ag anawsterau mathemateg yn cael trafferth â chynrychioliadau rhifau a gweithrediadau, felly mae angen cyflwyno gwybodaeth mewn fformatiau amrywiol er mwyn eu helpu. Efallai y bydd gan ddysgwyr eraill sy'n cael anhawster â mathemateg anawsterau sy'n cyd-ddigwydd â rhai mewn meysydd dysgu eraill hefyd, fel nam iaith penodol neu ddsylecsia, ac felly bydd deall lle mae hynny'n her yn helpu i dargedu'r camau gweithredu priodol.

### **Ymyriadau anhwylder cydsymud datblygiadol**

Datblygodd grŵp ambarél y DU ar gyfer anhwylder cydsymud datblygiadol (dyspracsia), *Movement Matters*<sup>58</sup>, gyfres o ganllawiau consensws y DU yn 2012 ar gyfer ymyrraeth.

Dylai plant sy'n cael diagnosis o anhwylder cydsymud datblygiadol gael ymyrraeth, oherwydd bod tystiolaeth i awgrymu y gall ystod o ymyriadau, gan gynnwys rhai mewn lleoliad addysgol, fod o fudd. Dylid ystyried ffactorau personol, ffactorau amgylcheddol a'r baich o fod ag anhwylder cydsymud datblygiadol, a all effeithio ar hunan-barch dysgwyr, a'u cyfranogiad mewn gweithgareddau bob dydd wrth gynllunio unrhyw ymyrraeth, a'u defnyddio fel mesurau canlyniadau posibl hefyd.

Oherwydd bod gan dysgwyr â anhwylder cydsymud datblygiadol anhwylder sy'n cyd-ddigwydd, yn aml, e.e. anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, mae angen sefydlu blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth. Gall ffactorau unigol, e.e. diffyg cymhelliant neu ffactorau seicogymdeithasol fel gorbryder, gyfyngu ar effeithiolrwydd rhai ymyriadau. Ymhlith rhai dysgwyr ag anhwylder cydsymud datblygiadol, gall cymorth cydadferol ac amgylcheddol fod yn ddigonol, h.y. gwneud addasiadau fel defnyddio cyfrifiaduron i gofnodi, yn hytrach na llawysgrifen.

### **Ymyriadau ar gyfer namau iaith penodol**

Bydd gan y rhan fwyaf o blant â namau iaith penodol a nodwyd asesiad gan therapydd iaith a lleferydd cymwysedig, a fydd yn rhoi arweiniad i'r darparwr addysg a'r aelwyd, ac yn penderfynu ar ymyrraeth ar sail proffil unigol y dysgwr, gan ystyried presenoldeb ADPau eraill.

Mae sawl astudiaeth<sup>59</sup> wedi adrodd ar yr hyn sy'n gweithio o ran ymyrraeth ar gyfer namau iaith penodol ac oedi mewn iaith a lleferydd. Y prif gasgliadau o'r adolygiad hwn oedd, er y gall fod rhywfaint o gefnogaeth i effeithiolrwydd therapi iaith a

<sup>58</sup> [www.movementmattersuk.org](http://www.movementmattersuk.org)

<sup>59</sup> *Better communication research programme: 1st interim report* (DFE, 2010)

[www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/193427/DFE-RR070.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/193427/DFE-RR070.pdf)

lleferydd i ddysgwyr ag anawsterau seinyddol mynegiannol a geirfa fynegiannol, mae'r dystiolaeth yn ymwneud ag effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer cystrawen fynegiannol yn gymysg (y rheolau sy'n llywodraethu cyfuno geiriau i ffurfio brawddegau), ac nid oedd llawer o dystiolaeth ar gael yn ymwneud ag ymyriadau i ddysgwyr ag anawsterau iaith dderbyngar, os o gwbl. Ymhlith plant o oedran cyn-ysgol, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod ymyrraeth ddwys gan therapyddion iaith a lleferydd yn cael y canlyniadau gorau<sup>60</sup>.

---

<sup>60</sup> Gallagher, AO, a Chiat, S (2010) 'Evaluation of speech and language therapy interventions for pre-school children with specific language impairment: a comparison of outcomes following specialist intensive, nursery-based and no intervention' yn *International Journal of Language and Communication Disorders* (2009) 44(5): 616–638

## Atodiad 1: Prosesau posibl ar gyfer ADPau ac ALLau

Mae'r canlynol yn un enghraifft o gasgliad o brosesau neu lwybr gan ALLau gwahanol ac o ymchwil.

### 1. Cael mesurau gwaelodlin a gweld a oes unrhyw sbardunau ar gyfer gweithredu

- Gall mesur cerrig milltir datblygiadol mewn lleoliadau cyn-ysgol trwy'r Cyfnod Sylfaen helpu i bennu pa ddysgwyr yr ymddengys eu bod ar ei hôl hi o gymharu â'u cyfoedion (e.e. defnyddio Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynnydoedd Cynnar).
- Gwiriwch ganlyniadau o sgiliau llythrennedd a rhifedd a gyflawnir trwy'r FfLIRh i olrhain cynnydd ac adnabod y rhai nad ydynt yn gwneud cynnydd o gymharu â'u cyfoedion.

### 2. Sbardunau posibl eraill ar gyfer gweithredu

#### Pryderon rhieni/gofalwyr

- Pryderon iechyd, e.e. gormod o gwyr yn y glust, cyflyrau meddygol, gweledol, clyw, taflod hollt.
- Pryderon addysgol, e.e. oedi neu anhawster siarad, gwrando, darllen, sillafu, ysgrifennu neu sgiliau rhif o gymharu â gweddill y dosbarth.
- Oedi datblygiadol, e.e. iaith, cymdeithasol, echddygol.
- Cwsg afreolaidd.
- Cyfeillgarwch, bwlio.
- Unrhyw bryderon gartref – tai, heriau rhieniol neu deuluol, ac ati.

#### Pryderon ymarferwyr

- Oedi neu anhawster siarad, gwrando, darllen, sillafu, ysgrifennu, sgiliau rhif o gymharu â gweddill y dosbarth.
- Yn ymddwyn yn wahanol i blant eraill, fel yn mynd i'r gragen/chragen, yn orfywiog, yn ateb allan o dro, yn osgoi rhyngweithio yn y dosbarth, ar ei ben/phen ei hun ar y buarth.
- Yn bwlio neu'n cael ei fwlio/bwlio.
- Symudiad – oedi mewn sgiliau echddygol manwl a braf ar gyfer ei (h)oedran a phrofiad.

#### Pryderon iechyd/cymdeithasol

- Adroddiad gan ymwelydd iechyd, meddyg teulu, CAMHS, paediatregwyr, seicoleg, gwasanaethau cymdeithasol.
- Oedi/amlygu wrth sgrinio/offer datblygiadol.

#### Pryderon dysgwyr

- Â chyfoedion/dosbarthiadau.
- Yn poeni am feysydd sgiliau penodol.
- Lles emosiynol.

### **Ystyriwch resymau eraill dros yr heriau hefyd**

- Diffyg profiad.
- Diffyg cyfle.
- Wedi colli'r ysgol.
- Nid yw'n deall (nam iaith penodol neu Saesneg fel iaith ychwanegol).
- Osgoad neu orbryder.

### **3. Cael darlun cyflawn**

- Coladwch wybodaeth o ffynonellau lluosog gan rieni/gofalwyr ac athrawon (a'r dysgwr lle bo hynny'n briodol ac ar gael), a gwybodaeth berthnasol arall lle mae'n bresennol o ffynonellau allanol.
- Arsylwch y dysgwyr mewn lleoliadau gwahanol, lle bo hynny'n bosibl, e.e. ar y buarth, mewn dosbarthiadau gwahanol, amser cinio.
- Amlygwch batrwm a meysydd oedi.
  - Defnyddiwch offer sgrinio penodol ar gyfer ADPau i archwilio meysydd yn fanylach, e.e. sylw, iaith, echddygol.
  - Defnyddiwch offer asesu i gael dealltwriaeth o ble mae anawsterau penodol, e.e. asesiad sillafu; darllen a deall; asesu sgiliau llawysgrifen; cof gweithredol.
- Cofiwch fod ADPau yn aml yn orgyffwrdd. Meddyliwch sut y gall un anhawster newid y ffordd rydych yn ymddwyn, e.e. gall methu ysgrifennu arwain at lunio traethodau byrrach; gall methu chwarae gemau pêl olygu osgoi addysg gorfforol; gall methu deall cyfarwyddiadau wneud i'r dysgwr deimlo'n rhwystredig a/neu'n flin.
- Os byddwch yn gweld baneri coch – atgyfeiriwch i'r gweithiwr proffesiynol priodol a darparwch wybodaeth waelodlin.

### **4. Cytuno ar gynllun gweithredu**

(Gall y termau ar gyfer hwn amrywio, e.e. Cynllun Addysg Unigol/Cynllun Datblygu Unigol/Cynllun Dysgu Unigol/Cynllun Gofal Personol/Cynllun Datblygu Personol)

- Cytunwch a gosodwch flaenoriaethau â'r rhiant/gofalwr, athro/athrawes a'r dysgwr (lle bo hynny'n briodol).
- Penderfynwch ar gynllun gweithredu swyddogaethol gyda'ch gilydd a gosodwch nodau a dyddiadau adolygu.
- Ystyriwch ddull 'ymateb i ymyrraeth' a chyflawnwch y cynllun.


### **5. Monitro ac adolygu**

- Monitwch gynnydd am gyfnod gosodedig, e.e. un tymor.
- Cyfarfod adolygu. A fu arfer ac amser priodol a digonol i ennill y sgiliau? Trafodwch yr hyn sydd wedi gweithio'n dda. Beth ellid ei newid? Pa nodau newydd y mae angen eu gosod er mwyn parhau i symud ymlaen?
- Unrhyw bryderon parhaus neu ddiffyg ymateb i ymyrraeth – dilynwch ganllawiau neu lwybr, os oes un ar waith, neu atgyfeiriwch i weithiwr proffesiynol priodol a darparwch wybodaeth waelodlin a chynllun gweithredu o'r ymyrraeth hyd yn hyn.

## 6. Atgyfeirio i lwybr amlddisgyblaethol/rhyngddisgyblaethol


- Casglwch unrhyw wybodaeth ychwanegol i baratoi ar gyfer atgyfeiriad penodol.
- Os oes protocol lleol/cenedlaethol ar waith, dilynwch y camau.
- Ystyriwch atgyfeiriad mewnol ac/neu allanol arbenigol.

### Enghraifft o lwybr a phrosesau yn y cyfnod derbyn





Enghraifft o lwybr a phrosesau ar gyfer Blwyddyn 1–6



## Atodiad 2: Beth i'w ystyried wrth ddewis offer sgrinio neu asesu

Ystyriaethau wrth ddewis	Sylwadau ychwanegol	Nodiadau
Sail resymegol ar gyfer sgrinio?	<p>Defnyddiwch offeryn sgrinio os ydych am gael mwy o wybodaeth i benderfynu p'un a ddylech gwblhau asesiad ai peidio, a pha faes i ganolbwyntio arno.</p> <p>Angen rhywbeth cyflym a hawdd i'w gwblhau.</p> <p>Rhad ei ddefnyddio.</p> <p>Nid oes angen llawer o hyfforddiant. Hawdd ei sgorio.</p>	<p>A oes angen i chi gasglu gwybodaeth ychwanegol gan riant/gofalwr hefyd?</p> <p>Sut mae'r offeryn sgrinio neu asesu yn dylanwadu ar eich camau gweithredu ar gyfer targedu ymyrraeth?</p>
Beth y datblygwyd yr offeryn (sgrinio neu asesu) ar ei gyfer?	Gwiriwch yr ystod oed. A oes ganddi safonau ar gyfer y DU?	e.e. Mae SNAP1V yn offeryn sgrinio a ddatblygwyd i sgrinio ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, ond nid i sgrinio ar gyfer <b>pob</b> problem ymddygiad.
Pryd y datblygwyd yr offeryn (sgrinio neu asesu)?	A yw'r safonau a ddefnyddir yn berthnasol o hyd?	
Pa hyfforddiant neu gymhwyster sydd ei angen arnoch i ddefnyddio'r asesiad?	A all rhywun ddysgu sut i weinyddu'r asesiad, ond bod angen i rywun arall edrych ar y canlyniadau a'i sgorio?	

A ydych yn ystyried defnyddio isadran o asesiad neu ei addasu i'r defnydd?	Gwiriwch fod y sgoriau'n ddilys o hyd. Efallai y bydd angen i chi wneud pob eitem mewn prawf i allu cynhyrchu canradd neu sgôr safonol.	
Beth yw cost yr offeryn (sgrinio neu asesu)?	Ai cost untro yw hon neu a oes costau parhaus? A oes gwerth ychwanegol i ddefnyddio rhai asesiadau oherwydd eu bod yn darparu canllawiau ar gyfer rheolaeth hefyd?	A oes unrhyw gostau parhaus, e.e. taflenni ymateb?
Faint o amser y mae'n ei gymryd i'w gwblhau?	Gall asesiadau cyfrifiadurol ofyn llai o amser uniongyrchol i'w gweinyddu.	
A oes angen unrhyw gyfarpar penodol arnoch?		A ellid ei rannu rhwng lleoliadau addysgol?
Faint o le sydd ei angen arnoch i gwblhau'r asesiad?		

### Y dysgwr a'i (h)amgylchedd

A yw ymddygiad y dysgwr yn amrywio o un dosbarth i'r llall neu â gweithwyr addysgu proffesiynol gwahanol?	Mewn lleoliadau addysgol, efallai y bydd angen gwybodaeth arnoch gan sawl ymarferydd addysgu.	
A oes unrhyw ffactorau fel gorbryder neu orflinder a all effeithio ar sut mae'r dysgwr yn ymddwyn mewn asesiad?	Ystyriwch adeg y dydd a diwrnod yr wythnos y caiff yr asesiad ei gwblhau.  Beth sydd wedi digwydd cyn yr asesiad, e.e. gwrs heriol i'r dysgwr?	

<p>A oes unrhyw ffactorau allanol a fydd yn effeithio ar allu'r dysgwyr i ganolbwyntio ar yr asesiad?</p>	<p>Gall sŵn allanol gan ddysgwyr eraill, a symudiad, dynnu sylw ac effeithio ar berfformiad.</p>	
<p>A oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol arnoch i arwain yr asesiad e.e. gan riant/gofalwr neu athrawon eraill?</p>		

## **Atodiad 3: Rhestr o dermau sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas ag offer sgrinio ac asesu**

### **Beth yw rhestr wirio?**

Rhestr o eitemau i'w hystyried yw rhestr wirio. Gallant fod ar ffurf cwestiynau neu gamau gweithredu i'w cyflawni. Gallant fod â system sgorio neu gallant gasglu sylwadau. Gall rhestrau gwirio gyflymu'r gwaith o gasglu gwybodaeth trwy ddefnyddio blychau ticio a graddfeydd sgorio.

### **Beth yw offeryn sgrinio?**

Mae offer sgrinio wedi eu llunio i fod yn rhad, yn gyflym ac yn hawdd eu defnyddio i ddarparu ciplun sy'n eich galluogi i adnabod dysgwyr y mae angen asesiad mwy trylwyr arnynt. Mae'n gam cyntaf tuag at amlygu 'baneri coch' a ph'un a oes angen asesiad ychwanegol.

### **Beth sy'n gwneud offeryn sgrinio da?**

**Sensitifrwydd:** I ba raddau y mae'r offeryn yn adnabod dysgwyr sydd 'mewn perygl' yn gywir. Mae angen lleihau nifer y dysgwyr yr amlygir eu bod yn cael anhawster bob tro. Yn gyffredinol, dangoswyd bod cost goradnabod yn sylweddol llai na chost tanadnabod, i'r dysgwr a'r gymdeithas.

**Penodolrwydd:** I ba raddau y mae'r offeryn yn adnabod dysgwyr sydd ddim 'mewn perygl' yn gywir.

**Ymarferoldeb:** Mae'r offeryn yn hawdd ei weinyddu, nid yw'n cymryd gormod o amser i'w gwblhau, ac nid oes angen arbenigwr i'w gyflawni.

**Dilysrwydd ôl-ddilynol:** Mae hyn yn golygu nad yw'r mesur sgrinio yn gwneud unrhyw niwed i'r dysgwr a'i fod wedi ei gysylltu ag ymyriadau effeithiol.

### **Beth yw cynefindra â phrawf?**

Mae'n werth ystyried, os byddwch yn gofyn i ddysgwr wneud yr un asesiad ddwywaith yn syth ar ôl ei gilydd, p'un a yw unrhyw welliant mewn perfformiad yn gysylltiedig â chynefindra â'r asesiad neu welliant gwirioneddol yn sgiliau'r dysgwr.

### **Beth yw canlyniad cadarnhaol anghywir?**

Dyma le mae'r offeryn sgrinio neu asesu'n amlygu bod gan y dysgwr anhawster neu gyflwr pan nad oes un arno/arni. Gall hyn olygu y gwneir y rhagdybiaethau anghywir neu y rhoddir ymyrraeth amhriodol. Gall godi lefelau gorbryder y rhiant/gofalwr yn ddiangen hefyd.

### **Beth yw canlyniad negyddol anghywir?**

Dyma le mae'r offeryn sgrinio neu asesu'n methu'r ffaith bod gan y dysgwr gyflwr neu anhawster. Gall hyn olygu bod llai o ymyrraeth neu gymorth yn cael ei roi ar waith, neu na chaiff atgyfeiriad ei wneud ar gyfer y dysgwr hwnnw.

## **Beth yw asesiad diagnostig?**

Asesiad manwl ydyw sy'n ymwneud â chryfderau a gwendidau ym mhob maes sgiliau. Mae'n helpu i bennu'r hyn y mae dysgwyr yn ei wybod ac yn gallu ei wneud yn barod, ac yn amlygu'r cyfarwyddiadau sydd eu hangen.

## **Beth yw asesiad safonedig?**

Asesiad safonedig yw un a roddwyd i grŵp mawr o ddysgwyr o oedrannau gwahanol er mwyn pennu'r ystod perfformiad 'arferol'.

## **Beth yw asesiad neu brawf a asesir gan gyfeirio at y norm?**

Mae cyfeirio at y norm yn cyfeirio at brofion safonedig sydd wedi eu llunio i gymharu a rancio'r rhai sy'n sefyll y prawf o gymharu â'i gilydd. Mae profion a asesir gan gyfeirio at y norm yn adrodd ar b'un a wnaeth y rhai a safodd y prawf berfformio'n well neu'n waeth na dysgwr cyfartalog damcaniaethol, sy'n cael ei bennu trwy gymharu sgoriau â chanlyniadau perfformiad grŵp o ddysgwyr a ddetholwyd yn ystadegol, o'r un oed neu'r un lefel graddau yn nodweddiadol, sydd eisoes wedi sefyll yr arholiad.

Yn gyffredinol, caiff sgoriau gan gyfeirio at y norm eu hadrodd ar ffurf safle canran neu ganradd. Yn benodol, mae profion gan gyfeirio at y norm wedi eu llunio i rancio'r rhai sy'n sefyll y prawf ar 'gromlin gloch', neu ddsbarthiad o sgoriau sy'n edrych yn debyg i amlinelliad o gloch wrth eu rhoi mewn graff, h.y. canran fach o ddysgwyr yn perfformio'n dda, perfformiad y rhan fwyaf ohonynt yn gyfartalog, a chanran bach ohonynt yn perfformio'n wael.

## **Beth yw sgôr grai?**

Sgôr grai yw'r sgôr ar gyfer asesiad penodol. Mae'n anodd defnyddio hon ar ei phen ei hun, oherwydd ni allwch gymharu asesiadau gwahanol, a gall y sgorau olygu pethau hollol wahanol. Nid yw'n dweud p'un a yw'r dysgwr uwchlaw'r cyfartaledd neu islaw'r cyfartaledd.

## **Beth yw sgôr safonol?**

Mae'r sgôr safonol yn ystadegyn defnyddiol iawn oherwydd (a) mae'n galluogi dealltwriaeth o ble mae'r sgôr o fewn y dosbarthiad arferol a (b) mae'n galluogi cymharu dwy sgôr o ddsbarthiadau arferol gwahanol. Mae sgoriau safonol yn amcangyfrif a yw sgoriau dysgwr uwchlaw'r cyfartaledd, yn gyfartalog, neu islaw'r cyfartaledd o gymharu â'u cyfoedion. Maent hefyd yn eich galluogi i gymharu sgoriau dysgwyr mewn gwahanol fathau o brofion.

## **Beth yw canradd?**

Mae canraddau'n nodi canran y bobl sy'n sgorio ar lefel benodol neu'n is. Mae'r 50<sup>fed</sup> canradd yn lefel gyfartaledd, a disgwylir i hanner y boblogaeth gael sgôr is na hynny.

## **Beth yw chwartel?**

Mae chwartelau'n rhannu'r set ddata yn bedair rhan gyfartal.

## **Beth yw gwyriad safonol?**

Swm ydyw sy'n mynegi cymaint y mae dysgwr mewn grŵp yn wahanol i'r gwerth cymedrig ar gyfer y grŵp. Er enghraifft, os caiff sgiliau darllen eu dosbarthu fel arfer, yna byddai disgwyl i 7 y cant o ddysgwyr fod islaw 1.5 gwyriad safonol a 2 y cant o ddysgwyr fod islaw 2 wyriad safonol.

**Sgoriau Z:** Mae'r sgoriau hyn wedi eu graddio ar linell rhif o -4 i 4 â sero yn y canol. Ar y raddfa hon, sero yw'r cyfartaledd. Mae sgoriau positif uwchlaw'r cyfartaledd, ac mae sgoriau negatif islaw'r cyfartaledd

**Sgoriau T:** Mae'r sgoriau hyn yn amrywio o 10 i 90 mewn cyfyngau o 10 pwynt. Pum deg yw'r cyfartaledd ar y raddfa hon.

## **Beth yw prawf neu asesiad gan gyfeirio at feini prawf?**

Mae'n cynnwys pennu gallu dysgwr trwy gymharu ei gyflawniadau/chyflawniadau â meini prawf clir ar gyfer deilliannau dysgu, a safonau clir ar gyfer lefelau perfformiad penodol. Y nod â'r asesiadau hyn yw penderfynu p'un a yw'r unigolyn wedi dangos meistrolaeth ar sgil benodol neu gyfres o sgiliau penodol ai peidio.

Nid oes sgôr dorbwynt; sail yr asesiad yw canfod a yw'r dysgwr wedi cyflawni'r sgil dan sylw ai peidio.

Her asesiad gan gyfeirio at feini prawf yw penderfynu beth ddylid ei ddisgwyl erbyn oedran penodol, ac mae llawer o drafodaeth ynghylch beth ddylai nodi hyn. Sut ydym yn gwybod beth ddylai dysgwr saith oed fod yn gallu ei wneud mewn mathemateg oni bai ein bod yn mesur llawer o ddysgwyr saith oed? A ydym yn penderfynu bod problem os bydd yr unigolyn yn y pumed canradd isaf mewn un maes, heb gasglu gwybodaeth am y meysydd dysgu eraill a all fod yn effeithio ar berfformiad y dysgwr hwnnw?

## **Beth yw asesiad ar sail perfformiad?**

Mae hyn yn gysylltiedig â mesur p'un a all y dysgwr 'ddangos y sgiliau y mae'r prawf wedi ei fwriadu i'w mesur trwy wneud tasgau'r byd go iawn sy'n mynnu'r sgiliau hynny, yn hytrach na thrwy ateb cwestiynau yn gofyn sut i'w gwneud'. Er enghraifft, os dylai'r dysgwr allu darllen darn penodol a thynnu gwybodaeth ohono i wneud tasg, yna dyma'r hyn sy'n cael ei asesu. Enghraifft arall: a all y dysgwr newid ar gyfer dosbarth ymarfer corff yn barod ar gyfer dechrau'r wers?

## **Atodiad 4: Rhagor o ystyriaethau wrth ystyried sgrinio ac asesu ar gyfer ADPau**

### **A all fod un offeryn asesu ar gyfer asesu ADP, e.e. ar gyfer dyslecsia neu ddyscalwlia?**

Bydd dysgwyr ag anawsterau llythrennedd a/neu rifedd yn amrywio'n fawr o ran eu hymgyflwyniad. Er enghraifft, efallai y bydd gan rai ohonynt anawsterau darllen ac ysgrifennu, ond efallai eu bod yn deall gwybodaeth lafar yn dda, ac efallai y bydd gan ddysgwyr eraill ddealltwriaeth wael a'u bod yn cael anawsterau darllen a deall, er gwaethaf cywirdeb darllen sy'n briodol i'w hoedran.

Ni fydd un asesiad ar gyfer llythrennedd yn gallu amlygu'r ystod hon o wahaniaethau. Gellir dweud yr un peth ar gyfer anawsterau mathemateg. Mae dyscalwlia yn cynrychioli ambarél o anawsterau mathemateg gwahanol, a bydd yr heriau'n amrywio o un dysgwr i'r llall. Un rhan o allu ymgymryd â mathemateg yn gymwys yw'r gallu i ddeall y termau mathemateg gwahanol a ddefnyddir, a gall hyn fod yn her ychwanegol i blentyn â nam iaith penodol.

### **A yw offer tebyg a ddatblygwyd ar gyfer yr un maes dysgu, neu wybyddiaeth, yn mesur yr un peth bob tro, e.e. a ellir cymharu canlyniad un asesiad sillafu ag un arall?**

Er y caiff asesiadau eu labelu fel eu bod yn asesu meysydd gweithredu tebyg, bydd eu dyluniad a'u cynnwys yn wahanol, ac felly gall hyn arwain at amrywiad ym mha ddysgwyr y maent yn amlygu bod ganddynt anhawster (ac a all gael cymorth, o bosibl). Mae'n debyg i ddefnyddio dwy letwad o feintiau ychydig yn wahanol mewn sosban gawl. Canfu un astudiaeth yn defnyddio dau offeryn asesu prif ffrwd gwahanol ar gyfer anhwylder cydsymud datblygiadol eu bod yn adnabod dysgwyr gwahanol iawn yn yr ystod oed 7 i 10 oed a archwiliwyd.

### **Sut ydych chi'n gwybod pa mor gywir y mae offeryn asesu?**

Mae hyn yn dibynnu ar yr hyn yr hoffech ei fesur a pha feini prawf a ddefnyddir. Edrychwch ar y diffiniadau o sensitifrwydd a phenodolrwydd.

### **Beth fydd yn digwydd os byddwn yn defnyddio offer gwahanol i sgrinio ac asesu mewn ALIau gwahanol?**

Os bydd un lleoliad addysgol neu ALI yn defnyddio un set o offer sgrinio ac asesu, ac un arall yn defnyddio rhai gwahanol, ceir amrywiad rhwng ALIau ynglŷn â pha ddysgwyr gwahanol caiff eu hadnabod fel rhai sydd ag anawsterau ai peidio. Rydym yn cymharu afalau â gellyg!

### **Sut ydych chi'n penderfynu pa 'dorbwynt' i'w gymhwyso?**

Yn aml, caiff torbwyntiau (neu ganraddau neu sgoriau safonol) eu defnyddio i benderfynu pwy all fanteisio ar wasanaeth neu ymyrraeth. Gall hyn fod yn broblem



oherwydd bod profion gwahanol yn asesu gwahanol bethau ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol bob tro. Yr enw ar hyn yw cydberthynas (faint mae dau asesiad yn profi am yr un peth). Nodwyd hyn yn yr arolwg meincnodi blaenorol a gynhaliwyd ledled Cymru ar gyfer dyslecsia. Yn gyffredinol, ni ddylai polisïau ymyrraeth ddibynnu ar un ffynhonnell wybodaeth neu asesiad, a hefyd dylent ffurfio rhan o'r archwiliad o drefniadau a dulliau ALLau ar gyfer adnabod a chynorthwyo dysgwyr ag ADPau yng Nghymru.

Mae angen darlun cyflawn o'r dysgwr a gasglwyd o nifer o ffynonellau er mwyn darparu darlun mwy cywir o'r angen a lefel yr ymyrraeth, yn enwedig ymhlith dysgwyr ag ADPau, neu fel arall, gallai penderfyniadau ar gyfer ymyrraeth gael eu gwneud ar asesiadau unigol.

## **A ddylem sgrinio pob dysgwr ar gyfer ADP?**

Yn gyffredinol, nid oes tystiolaeth dda bod hyn yn ddull effeithiol o amlygu ADPau.

## **A ddylem sgrinio dysgwyr sydd ag un ADP i chwilio am ADPau eraill?**

Ni fydd tuag 80 y cant o ddysgwyr yn peri llawer o bryder i ymarferwyr addysgu a'u rhieni/gofalwyr. Mae gan tuag 20 y cant o ddysgwyr Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledau ac, o'r rhain, bydd gan gyfran ohonynt ADPau sy'n arwain at heriau o ran gwybyddiaeth a dysgu, lles emosiynol ac anawsterau corfforol. Nid yw'r rhain yn ymgyflwyno'n 'dwt', felly er mwyn amlygu proffil cyflawn o gryfderau a heriau mewn dysgwr, byddai sgrinio ar gyfer rhain yn angenrheidiol.

## **Beth yw effaith cam-labelu dysgwyr?**

Dyfynnwyd bod tua 60 y cant o waharddiadau ymhlith dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau. Weithiau, caiff ymddygiad ei amlygu yn hytrach na'r rhesymau sylfaenol posibl dros yr ymddygiad hwinnw. Mae dysgwyr â nam iaith penodol, anawsterau llythrennedd ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd mewn mwy o berygl o gael eu gwahardd na dysgwyr y brif ffrwd. Mae dysgwyr mewn UCD yn fwy tebygol o fod mewn perygl o gael eu gwahardd hefyd. Mae mwy o risg o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd a namau iaith penodol ymhlith dysgwyr mewn UC Dau. Gall cam-adnabod arwain at fwy o risg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yng Nghymru, nid oedd ychydig dros 1 o bob 5 o'r rhai 19 i 24 oed ac 1 o bob 10 o'r rhai 16 i 18 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (SFRS, 2014). Bydd gan gyfran o'r rhain ADP.

## **Pam y mae rhai dysgwyr yn cael diagnosis o rai cyflyrau?**

- Gall fod mwy o ymwybyddiaeth o rai cyflyrau o gymharu â rhai eraill, e.e. mae dyslecsia a namau iaith penodol yn cael eu cydnabod mwy mewn ysgolion yng Nghymru na chyflyrau eraill, er bod mynychder y cyflyrau'n debyg. Gall hyn fod yn gysylltiedig â mwy o ffocws ar lythrennedd a sgrinio rheolaidd ar ei gyfer.

- Gellir cydnabod bod gan ddysgwyr sy'n ymddwyn yn negyddol heriau ymddygiadol/emosiynol, ond efallai na chaiff ei gydnabod y gall fod ganddynt namau iaith penodol hefyd, neu anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd er enghraifft. Mae gan ddysgwyr â namau iaith penodol fwy o risg o fod ag anawsterau ymddygiadol.
- Efallai y bydd rhai dysgwyr yn dawel, ni fyddant yn aflonyddgar ac efallai y cânt eu hystyried yn 'llai abl' ac na fydd hyn yn peri pryder i athrawon neu rieni/gofalwyr.
- Yn aml, bydd y dysgwr yn cael y diagnosis mwyaf amlwg sy'n peri'r pryder mwyaf.
- Efallai bod rhai rhieni/gofalwyr yn fwy gwybodus am ADPau ac/neu efallai bod ganddynt ADP eu hunain.

## **Pa gymwysterau sydd eu hangen arnoch i ddefnyddio offer sgrinio ac asesu?**

Datblygwyd rhai asesiadau i'w defnyddio gan rai sydd â chymwysterau arbenigol yn unig, neu ar ôl cael hyfforddiant ar eu cyflwyno a'u dehongli. Ym maes ADPau, mae statws AMBDA yn un cymhwyster cyffredin a ddefnyddir ar gyfer athrawon sy'n asesu. Fodd bynnag, mae angen cymwysterau penodol ar gyfer rhai asesiadau sy'n cael eu caffael gan seicolegydd, therapydd galwedigaethol neu therapydd iaith a lleferydd cymwysedig a chofrestredig yn unig, er enghraifft.

Mae'r asesiadau canlynol yn rhai enghreifftiau o asesiadau a all gael eu defnyddio gan rywun sydd wedi cofrestru fel seicolegydd ymarferydd, a hefyd gan seicolegydd siartredig sy'n aelod o Gymdeithas Seicolegol Prydain, neu a all gael eu defnyddio gan therapydd iaith a lleferydd neu therapydd galwedigaethol.

- *Clinical Evaluation of Language Fundamentals – Fourth Edition UK (CELF-4<sup>UK</sup>)* (Pearson, 2006).
- *Movement Assessment Battery for Children – Second Edition (Movement ABC-2)* (Pearson, 2007).

Ceir rhai asesiadau lle nad yw'n ofynnol i unigolyn gael hyfforddiant uwch mewn asesu a dehongli. Fel arfer, mae'r asesiadau hyn wedi eu targedu at athrawon cymwysedig heb hyfforddiant arbenigol uwch. Dyma rai enghreifftiau.

- *York Assessment of Reading for Comprehension (YARC)* (GL Assessment).
- *British Picture Vocabulary Scale: Third Edition (BPVS3)* (GL Assessment).
- *Detailed Assessment of Speed of Handwriting (DASH)* (Pearson, 2007).

## Atodiad 5: Rhestr o gwestiynau ar gyfer ymarferwyr wrth ystyried dulliau ymyrraeth

Mae adolygiad defnyddiol o sut i ystyried pa ymyriadau llythrennedd a rhifedd i'w defnyddio i'w weld yn nogfen Llywodraeth Cymru *Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd*<sup>61</sup>.

Caiff rhai ymyriadau ym maes anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anhwylder cydsymud datblygiadol a namau iaith penodol eu harwain gan weithwyr iechedd proffesiynol a all fod yn arwain y cymorth sydd wedi eu pennu gan brotocolau a ddatblygwyd yn lleol neu'n genedlaethol.

### Asesu'r dull ymyrraeth

A oes data effaith dibynadwy sydd ar gael yn rhwydd, a gafwyd trwy ymchwil wrthrychol i ddilysu effeithiolrwydd y rhaglen o ran cyflymu gwelliant yn y maes datblygu sgiliau yr hoffech weithio arno?	
Beth yw'r dystiolaeth o effeithiolrwydd? A yw'r ymyrraeth yn cael effaith barhaol wedi iddi ddod i ben, neu a yw'n gweithio wrth ei chael yn unig?	
A ddatblygwyd yr ymyrraeth at y diben penodol rydych yn ei defnyddio ar ei gyfer?	
A oes angen hyfforddiant arbenigol arnoch i'w chyflwyno?	
Os yw'n targedu agwedd e.e. darllen, a yw'n cyflawni hynny? Sut caiff y cydrannau eu torri i lawr a gweithio arnynt?	

### Asesu cynnydd y dysgwr gan ddefnyddio'r ymyrraeth ddewisol

Wedi i chi ddewis y dull ymyrraeth, ystyriwch y canlynol.

Pwy fydd yn cyflwyno'r ymyrraeth? Pa sgiliau sydd eu hangen arno/arni? Pa hyfforddiant sydd ei angen arno/arni?	
Ystyriwch a oes unrhyw gyfyngiadau ar gyflwyno'r ymyrraeth, e.e. lle cyfyngedig/ystafell ddosbarth swllyd/prinder amser/bod angen adnoddau penodol i'w chyflwyno. Pa adnoddau sydd eu hangen arnoch?	
Sut gallwch fanteisio i'r eithaf ar gyflwyno'r ymyrraeth, e.e. dod o hyd i leoliad tawel/digon o le/adeg y dydd fel nad yw'r dysgwr yn rhy flinedig i ganolbwyntio ar y tasgau?	
A allwch chi ddarparu ymyrraeth fel rhan o grŵp neu a oes angen gwneud hynny un-i-un?	
A ydych wedi diffinio'r nodau ar gyfer yr ymyrraeth? A ydych wedi eu casglu o ffynonellau perthnasol, e.e. rhiant/gofalwr/athro/dysgwr?	

<sup>61</sup> <http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/121105guidanceforlitnumcatchupcy.pdf>

A ydych yn glir ynghylch y camau y mae angen eu cymryd i gyflawni eich nodau?	
Beth fyddwch yn ei ddefnyddio i fesur effeithiolrwydd? A fyddwch yn defnyddio ail brawf? A fyddwch yn edrych ar yr effaith ar hyder/cyfranogiad/trosglwyddedd i feysydd eraill? Sut byddwch yn gwneud hyn?	
Pa wybodaeth/ddata byddwch yn ei mesur/fesur a'i chofnodi/gofnodi er mwyn olrhain a monitro? Sut a ble y caiff hyn ei gofnodi?	
Sut byddwch yn cynnwys digon o gyfle i ymarfer y sgiliau rydych yn ceisio eu cyflawni gartref neu yn yr ysgol?	
A yw teuluoedd/gofalwyr yn cael eu hystyried yn y dull ymyrraeth er mwyn darparu cyfleoedd i ymarfer rhwng sesiynau? Pa wybodaeth allwch chi ei rhoi i deuluoedd/gofalwyr i helpu yn hyn o beth?	
Beth yw'r gost o ddatblygu, prynu neu reoli'r ymyrraeth? Ystyriwch yr agweddau gwahanol ar gyflwyno a monitro.	

## Beth yw monitro cynnydd?

Mae hyn yn mesur lefel perfformiad pob dysgwr yn erbyn nodau dynodedig ar gyfer dysgu yn rheolaidd. Caiff cynnydd ei fesur trwy gymharu cyfraddau dysgu disgwyliedig a gwirioneddol. Yna, caiff strategaethau cyfarwyddol eu haddasu i fodloni anghenion dysgu'r dysgwr unigol.

## Beth yw'r model ymateb i ymyrraeth?

Yn gyffredinol, disgrifiwyd y model hwn fel dull sgrinio cyffredinol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar anawsterau dysgu, ond sydd hefyd wedi cynnwys ysgrifennu, mathemateg ac ymddygiad. Mae model ymateb i ymyrraeth nodweddiadol yn mynnu sgrinio'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn academaidd i amlygu'r dysgwyr hynny sydd 'mewn perygl'. Ymhlith plant o oedran cyn-ysgol, gall hyn arwain at ganlyniadau cadarnhaol a negyddol anghywir, oherwydd y gall yr oedi fod o ganlyniad i ddiffyg profiad ac/neu oedi neu anhwylder a all arwain at orbryder diangen. Fodd bynnag, gall dysgwyr fod yn dangos 'baneri coch' sy'n amlygu pryderon a'r angen i fonitro datblygiad addysgol y dysgwr, e.e. dysgwr ag oedi iaith a lleferydd neu echddygol. (Gweler cerrig milltir datblygiadol).

## Mae'r egwyddorion allweddol yn ymwneud ag ymateb i ymyrraeth yn cynnwys y canlynol.

- Addysg pob dysgwr.
- Ymyrryd yn gynnar.
- Defnyddio model amlhaenog.
- Defnyddio prosesau datrys problemau i archwilio pam y mae rhywbeth yn gweithio neu beidio.
- Defnyddio asesiadau – caiff y rhain eu diffinio fel sgrinio, diagnosteg ac i fonitro cynnydd.
- Defnyddio cyfarwyddiadau ar sail tystiolaeth.
- Monitro cynnydd.

- Defnyddio data i wneud penderfyniadau i weithredu a symud y dysgwyr trwy haenau o gymorth. Bydd angen system casglu data parhaus.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan RTI Action Network yn [www.rtinetwork.org/learn/research/universal-screening-within-a-rti-model](http://www.rtinetwork.org/learn/research/universal-screening-within-a-rti-model)

## **Atodiad 6: Sefydliadau defnyddiol sy'n gysylltiedig ag ADPau**

### **Anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd**

#### **ADDIS**

Maent yn darparu gwybodaeth ac adnoddau sy'n hawdd eu deall am anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd ar gyfer unrhyw un sydd angen cymorth – rhieni/gofalwyr, unigolion, athrawon neu weithwyr iechyd proffesiynol.

ADDISS  
79 The Burroughs  
Hendon  
London  
NW4 4AX

Ffôn: 020 8952 2800  
e-bost: [info@addiss.co.uk](mailto:info@addiss.co.uk)  
Gwefan: [www.addiss.co.uk](http://www.addiss.co.uk)

### **Dyscalwlia**

#### **Cymdeithas Dyslecsia Prydain**

Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn hyrwyddo adnabod ADP yn gynnar a chymorth cynnar mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod dysgwyr dyslecsig yn cael cyfleoedd i ddysgu.

The British Dyslexia Association  
Unit 8 Bracknell Beeches  
Old Bracknell Lane  
Bracknell  
RG12 7BW

Ffôn: 0333 405 4555 (switsfwrdd) 0333 405 4567 (llinell gymorth)  
Gwefan: [www.bdadyslexia.org.uk/](http://www.bdadyslexia.org.uk/)

#### **Cymdeithas Athrawon Mathemateg**

Mae'n ymateb ac yn siarad ag awdurdod am faterion yn ymwneud â dysgu ac addysgu mathemateg, ac yn dylanwadu ar benderfyniadau er budd pawb sy'n dysgu mathemateg.

Association of Teachers of Mathematics  
Unit 7 Prime Industrial Park  
Shaftesbury Street  
Derby , DE23 8YB

Ffôn: 01332 346599  
e-bostl: [admin@atm.org.uk](mailto:admin@atm.org.uk)  
Gwefan: [www.atm.org.uk](http://www.atm.org.uk)

## **Dyslecsia**

### **Ymddiriedolaeth Anghenion Dysgu Penodol Dyslecsia**

Cydweithrediad rhwng mudiadau gwirfoddol a chymunedol â chyllid gan yr Adran Addysg yw hyn, i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy i rieni/gofalwyr, athrawon, ysgolion a'r sector ehangach.

The Dyslexia-SpLD Trust  
CAN Mezzanine  
49–51 East Road  
London  
N1 6AH

Ffôn: 0207 250 8108

e-bost: [info@thedyslexia-spldtrust.org.uk](mailto:info@thedyslexia-spldtrust.org.uk)

Gwefan: [www.thedyslexia-spldtrust.org.uk/](http://www.thedyslexia-spldtrust.org.uk/)

### **Cymdeithas Dyslecsia Prydain**

Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn hyrwyddo adnabod ADP yn gynnar a chymorth cynnar mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod dysgwyr dyslecsig yn cael cyfle i ddysgu.

(Cyfeiriad uchod.)

### **Dyslexia Action**

Yn cynnig help a chymorth yn uniongyrchol i unigolion. Yn grymuso eraill er mwyn iddynt helpu pobl y mae dyslecsia yn effeithio arnynt.

Dyslexia Action House  
10 High Street  
Egham  
Surrey  
TW20 9EA

Ffôn: 0300 303 8357

e-bost: [info@dyslexiaaction.org.uk](mailto:info@dyslexiaaction.org.uk)

Ffôn: 02920 481122

e-bost: [cardiff@dyslexiaaction.org.uk](mailto:cardiff@dyslexiaaction.org.uk)

Gwefan: [www.dyslexiaaction.org.uk/](http://www.dyslexiaaction.org.uk/)

### **Dyslecsia Cymru**

Ffôn: 0808 1800 110

[www.walesdyslexia.org.uk](http://www.walesdyslexia.org.uk)

## **Anhwylder cydsymud datblygiadol**

### **Canolfan Discovery**

Mae Canolfan Discovery yn wasanaeth arbenigol ac ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau clinigol, yn ymgymryd ag ymchwil, yn darparu gwasanaethau ymgynghorol a hyfforddiant ar bob lefel, o gyrsiau codi ymwybyddiaeth i radd Meistr mewn anhwylderau datblygiadol a phob ADP.

Y Canolfan Discovery  
Prifysgol De Cymru  
Tŷ Felthorpe  
Campws Caerllion  
Lodge Road  
Caerllion  
Casnewydd, NP18 3QR

Ffôn: 01633 432330  
e-bost: [discoverycentre@southwales.ac.uk](mailto:discoverycentre@southwales.ac.uk)  
Gwefan: [discovery.southwales.ac.uk](http://discovery.southwales.ac.uk)

### **Y Sefydliad Dyspracsia**

8 West Alley  
Hitchin  
Herts  
SG5 1EG

Ffôn: 01462 455 016  
e-bost: [dyspraxia@dyspraxiafoundation.org.uk](mailto:dyspraxia@dyspraxiafoundation.org.uk)  
Gwefan: [www.dyspraxiafoundation.org.uk/](http://www.dyspraxiafoundation.org.uk/)

### **Movement Matters**

Mae Movement Matters yn sefydliad ambarél yn y DU sy'n cynrychioli'r prif grwpiau cenedlaethol sy'n ymwneud â phlant ac oedolion ag anhwylder cydsymud datblygiadol.

Mae hyn yn cynnwys DCD-UK, Y Sefydliad Dyspracsia, DANDA a'r Gymdeithas Llawysgrifen Genedlaethol.

e-bost: [info@movementmattersuk.org](mailto:info@movementmattersuk.org)  
Gwefan: [www.movementmattersuk.org](http://www.movementmattersuk.org)

### **Y Gymdeithas Llawysgrifen Genedlaethol**

Eu nod yw codi ymwybyddiaeth o lawysgrifen fel elfen hanfodol o lythrennedd. Maent yn hyrwyddo ac yn meithrin arfer da o ran addysgu llawysgrifen ac yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n cael anawsterau llawysgrifen.

2 Moths Grace  
Basingstoke  
Hampshire  
RG24 9FY



Ffôn: 01256 464598  
e-bost: [nha.finance@btconnect.com](mailto:nha.finance@btconnect.com)  
Gwefan: [www.nha-handwriting.org.uk/](http://www.nha-handwriting.org.uk/)

## **Namau iaith penodol**

### **Yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu**

Mae'r Ymddiriedolaeth Gyfathrebu yn glymblaid dros 50 o fudiadau gwirfoddol a chymunedol sydd ag arbenigedd mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu.

The Communication Trust  
8 Wakley Street  
London  
EC1V 7QE

Ffôn: 0207 843 2526  
e-bost: [enquiries@thecommunicationtrust.org.uk](mailto:enquiries@thecommunicationtrust.org.uk)  
Gwefan: [www.thecommunicationtrust.org.uk/](http://www.thecommunicationtrust.org.uk/)

### **Afasic**

Sefydliad sy'n cael ei arwain gan rieni/gofalwyr i helpu plant a phobl ifanc sydd â namau iaith a lleferydd, a'u teuluoedd.

20 Bowling Green Lane  
London  
EC1R 0BD

Ffôn: 020 7490 9410 (ymholiadau) 0845 3 55 55 77 (llinell gymorth)  
Gwefan: [www.afasic.org.uk/](http://www.afasic.org.uk/)

*The SLI handbook* (ICAN Pub, 2011)  
<http://icancharity.org.uk/resources/sli-handbook>

### **RALLI**

[www.youtube.com/user/RALLIcampaign](http://www.youtube.com/user/RALLIcampaign)

### **Afasic Cymru**

Titan House  
Canolfan Fusnes Bae Caerdydd  
Ffordd Lewis  
Ocean Park  
Caerdydd  
CF24 5BS

Ffôn: 029 2046 5854  
e-bost: [jeannette@afasiccymru.org.uk](mailto:jeannette@afasiccymru.org.uk)  
Gwefan: [www.afasiccymru.org.uk](http://www.afasiccymru.org.uk)

Maent wedi datblygu adnoddau Cymraeg.

**I-CAN**

Mae I-CAN yn elusen gyfathrebu i blant.

8 Wakley Street  
London  
EC1V 7QE

Ffôn: 020 7843 2552  
e-bost: [info@ican.org.uk](mailto:info@ican.org.uk)  
Gwefan: [www.ican.org.uk/](http://www.ican.org.uk/)

**Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd**

Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT) yw'r corff proffesiynol ar gyfer therapyddion iaith a lleferydd yn y DU, sy'n darparu arweinyddiaeth ac yn gosod safonau proffesiynol.

2 White Hart Yard  
London  
SE1 1NX

Ffôn: 020 7378 3012  
e-bost: [info@rcslt.org](mailto:info@rcslt.org)  
Gwefan: [www.rcslt.org/](http://www.rcslt.org/)

**Talking Point**

Mae Talking Point yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni a gofalwyr i helpu eu plant i ddatblygu sgiliau cyfathrebu.

Ffôn: 0845 225 4071  
e-bost: [help@talkingpoint.org.uk](mailto:help@talkingpoint.org.uk)  
Gwefan: [www.talkingpoint.org.uk/](http://www.talkingpoint.org.uk/)